kynan. y geiſſaȣ amdiffyn y hoedel. Agȣedy anuon kena*deu ef aedewis o deuei attaȣ y aruoll̃i ynllaȣen. Agȣedy clybot orufud uab rys hynny ef ahoȣel y vraȣt aaethant attaȣ yr howel hȣnnȣ avuaſſei yg karchar ernȣlf uab roſer iarll̃ caſtell̃ baldwin yr hȣnn y rodaſſei wilim vrenhin idaȣ kyfran ogyfoeth rys uab tewdȣr ac ynydiȣed ydiagaſſei yr howel hȣnnȣ. yn annafus gȣedy trychu y aelodeu orcarchar. Ac yna ydaruoll̃et ȣynt ac ereill̃ gyt ac ȣynt ynhegar ygan rufud uab kynan. Ac ygkyfrȣg hynny gȣedy clybot or brenhin mynet grufud ab rys at ruffud ab kynan. Anuon kenadeu awnaeth at ruffud uab kynan y erchi idaȣ dyuot attaȣ. Ac ufud vu ruffud y vynet att ybrenhin. Ac megys ymae moes y ffreinc tȣyllaȣ dynyon drȣy edewidion Adaȣ llaȣer aȣnaeth henri vrenhin idaȣ ochymerei arnaȣ dala grufud uab rys ae anuon ynvyȣ attaȣ ef. Ac ony allei ydala. y lad ac anuon y benn idaȣ. Ac ynteu drȣy adaȣ hynny aymchoelaȣd y wlat Ac yny lle gofyn awnaeth pyle ydoed rufu uab rys yntrigyaȣ. A menegi awnaeth-pȣyt y rufud uab rys. dyuot grufud uab kynan o lys y brenh^in^ ae geiſſaȣ ynteu ynewyllys. Ac yno y dywaȣt rei ȣrthaȣ aodynt yntrigyaȣ gyt ac ef drȣy ewyllys da. gochel y gedrycholder. yny wyper py fford y kerdo ychwedyl. Ac ȣynteu yndywedut hynny nachaf vn yndyuot. Ac yndywedut. Llyma varchogyon yndyuot ar vrys. Abreid yd athoed ef dros y drȣs nachaf y marchogyon yndyuot y geiſſaȣ. Ac ny allaȣd amgen no chyrchu eglȣys aber daron arnaȣd. Agȣedy clybot oruffud uab kynan y dianc. yr eglȣys. anuon gȣyr aorȣc ~~aorȣc~~ y tynu ef or eglȣys allan. Ac ny adaȣd eſcyb ahenafyeit ywlat hynny rac llygru naȣd yreglȣys. Agȣedy y ellȣg or eglȣys ef affoes yr dehu. ac adeuth yyſtrat tywi. Agȣ(ed)y

clybot hynny llawer aymgynullaôd attaô obop tu. Ac ynteu aduc kyrch anhegar amben yffre*inc arflemhissyeit yny daruu y vlôydyn hōno. Y vlydyn rac ôyneb y kyrch[aôd] ygrufud ab rys adywedassam ni uchot. yny vrôydyr gytaf ycastell aoed yn ymyl arberth ac y llos|ges. Odyna ydaeth hyt ynllan ym dyfri lle yd oed gastell neb un tywyssaôc aelôit rickert pônsôn. y gôr yrodassei henri vrēhin idaô y kantref bychan. ac yprofes ytorri ae losgi. ac nysgallaôd. Kanys ymôrthlad ac ef awnaeth keitweit ykastell Achyt ac ôynt Maredud uab ryderch uab cradaôc y gôr aoed ynkynal ystiwerdaeth y dan y dywededic rickert. Yrac castell eissoes alosges. Agôedy ymsaethu or tôr ac ef. abrathu llawer oewyr a saetheu. allad ereill ydymchoelaôd drachefyn. Agôedy hynny ydanuones ygedymdeithon y wneuthur kyrch achynnôrôf ar gastell aoed ynymyl aber tawy. A hônnô bioed Jarll aelwit henri bemônd. A gôedy llosgi y rac castell. ac amdiffyn or keitweit ytôr allad rei oewyr ydymchoelaôd drachefyn. Agôedy clybot hynny ac ymgynullaô attaô llawer oynvydyon ieueinc obop tu. wedy y dôyllaô o chôant anreitheu. neu o geissaô atneôydu brytanaôl teyrnas. Ac ny thal ewyllys dim o ny byd duô ynborth idaô. Gôneuthur aorruc ysclyfyaetheu maôr ynygylch o gylch. Ar ffreinc yna a gymerassant gyghor. agalô pennaetheu y wlat attunt. Nyt amgen owein uab cradaôc uab ryderch ygôr y rodassei henri vrenhin idaô rann or kantref maôr. a Maredud uab rydezch. yr hônn adywedassan ni vry. A ryderch uab teôdô[2] ae veibon Maredud ac owein. Nam yrei hynny gôreic ryderch ap tewdôr oed hunyd uerch vledyn ab kynvyn y pennaf or brytanyeit wedy grufud ab llywelyn yrei aoedynt vrodyr vn vam. Kanys ygharat verch varedud vrenhin y brytanyeit

1113.

oed y mam ell deu. Ac owein uab karadaôc vab gôenllian. verch y dywededic vledyn yrei allaôer o rei ereill adoethant ygyt. Agofyn aorac y freinc * udunt aoedynt oll fydlonyon y henri vrenhin. ac atteb aônaethant eubot Adywedut awnaeth y freinc ôrthunt odydyôch ual ydywedôch dangoffôch ar aôch gôeithredoed yr hynn yd yttyôch yny adaô ar aôch tauaôt. reit yô yôch gadô caftell kaer vyrdin yr hôn abie y brenhin. Pob un ohonaôch yny offodedic amfer ual hynn. Cadô y caftell o owein uab cradaôc pythewnos. Aryderch uab teôdôr pythewnos arall. Amaredud uab ryderch abtewdôr pytheônos. A bledri uab kediuor y gorchymmynnôyt caftell robert laôgan yn aber cofôy. A gôedy anfodi ypetheu hynny. Cruffud ab Rys abryderaôd am anuon difgôyleit am torri y caftell neu y lofgi. Aphan gauas amfer adas ual y gallei yn haôd kyrchu ycaftell. Yna y damweinaôd uot owein ab cradaôc ynkadô ygkylch y caftell. Ac yna y duc gruffud ab rys kyrch nos amben y caftell. A phangigleu owein ae gedymdeithon kynnôrôf y gwyr ae geôri yndyuot. Kyfot yn ebrôyd or ty lle ydoed ef ae gedymdeithon awnaethat Ac yny lle y clywei yr aôr ef e hun agyrchaôd ym blaen y vydin a thebygu bot ygedymdeithon ynyol. wynteu gôedy y adaô ef ehunan afoaffant. Ac uelly y llas yna. Agôedy llofgi y rac caftell heb vynet ymyôn yrtôr. ydymchoelaôd ac yfpeileu gantaô yr notaedigyon goedyd. Odyna ydymgynullaffant y| Jeueinc ynvydyon y wlat o bop tu attaô o debygu gorruot o honaô ar bop peth o achaôs y damwein hônnô. Kanys caftell aoed yggôhyr. alofges ef o gôbôl allad llawer owyr yndaô. Ac yna ydedeôis gôilim o lundein y caftell rac y ofyn ae holl aniueileit ae o ludoed. A gôedy daruot hynny. Megys ydyweit

1113.

ſelyf drychafel aóna yſpryt ynerbyn kóymp. Yna yd aruaethaód yn chóydedic o valder. ac o draha yr anoſparthus bobyl. arynvyt giótaót kyweiraó ynvy*dyon o dyfet y geredigyaó. Achymryt górthóynebed yr gyfyaónder. Góedy galó o gediuor abgronó. Ahowel uab idnerth. Athrahayarn ab Ithel. yrei aodynt yndyneſſau ogyfneſſafróyd gerennyd achyfaduab a duunaó arglóydiaetheu idaó. Ar rei hynny aoedynt gyt ac ef ymblaen hollwyr keredigyaón. Ac nyt oed dim aallei uot yndireitach nor kediuor hónnó. yr wlat agkyffredin kym|noc yt adaó dyfet ynllaón o amryuaelon genedloed. Nyt amgen flemiſſyeit affreinc aſaeſon ae giótaót genedyl ehun. yrei kyt beynt vn genedyl agóyr keredigyaón. Eiſſoes gelynyon galloneu oed gantunt oachaós eu haneſmóythdra ae hannundeb kyn no hynny. Ac yn vóy no hynny rac ofyn ytremyc awnathoedynt y henri vrenhin. Ygór adofhaaſſei holl bennaduryeit ynys prydein oe allu ae vedyant. Ac adareſtygaſſei lawer owladoed tra mor órth ylywodraeth. Rei onerth arueu. Freill o aneiryf rodyon eur ac aryant y gór nyf dichaón neb ym oſcryn ac ef eithyr duó ehun. yneb arodes y medyant idaó. Agóedy dyuot grufuab rys yngyntaf ydeuth y is coet. Ac yna y kyrchaód y lle aelwir blaen porth hodnant. Yr honaadeilaſſei neb vn flemiſſór. Ac yno ydeuth yflemiſſeit y drigyaó. Agóedy ymlad dydgóeith ar hyt y dyd. allad llaóer owyr y dref. A llad vn oe wyr ynteu. allofgi y ran vóyaf ordref heb gael dim amgen no hynny ydymchoelaód drachefyn. Odyna yruthraód góyr ywlat attaó o dieflic annogedigaeth yn gyfun megys yndeiſſyfyt. Arſaeſſon adugaſſei gilbert kynno hynny ygyflewni ywlat yr honn kyn no hynny o anamylder pobloed aoed wac valch. adiffeithaſſant ac aladaſſant. ac ayſ-

1113.

peilaſſant. ac aloſgaſſant y tei. ae hynt ae kynnwryf adugant hyt ymhenwedic. Ach(ylch)ynu aorugant gaſtell razon yſtiwert aoed oſſodedic yny lle aelwit yſtrat peithill. Ac ymlad ac ef aorugant. ae orchyfygu. Agwedy llad llaȣ*er yndaȣ y loſgi awnaethant. Aphan deuth y nos pebyllyaȣ awnaeth yny lle aelwir glaſgruc. megys ar villtir y ȣrth eglȣys badarn. Anaſrȣyd aȣnaethant ynyr eglȣys. dȣyn yr yſcrubyl ynvȣyt udunt or eglȣys. Ar bore drannoeth ymaruaethu awnaethant ar caſtell aoed yn aber yſtȣyth gan debygu y oruot. Ac yna ydanuones razon yſtiwart gȣr aoed gaſtellȣr ar y caſtell hȣnnȣ. Ac aloſgyſſit y gaſtell ynteu kyn no hynny. ac y lladyſſit y wyr yn gyffroedic odolur am ywyr ac am y gollet ac ynergrynedic rac ofyn kenadeu hyt nos y gaſtell yſtrat Meuruc yr hȣnn awnathoed gilbert y argleȣyd kynno hynny y erchi yr caſtellwyr oed yno dyuot ar ffyſc ynborth idaȣ. Agȣercheidȣeit y kaſtell aanuonaſſant attaȣ kymeint ac allyſſant y gaffel. ac hyt nos y deuthant ataȣ Trannoeth y kyuodes gruffud uab rys a ryderch uab teȣdȣr y ewythyr amaredud ac owein yveibon. yn anſynhȣyrus oc eu pebyll heb gyȣeiraȣ eubydin. aheb oſſot arȣydon oc eublaen namyn bilein llu. Megys kyweithaſ ogiwtaȣt bobyl digygor heb lywyaȣdyr arnunt. y kymeraſſant eu hynt parth a chaſtell aber yſtȣyth. yny lle ydoed razon yſtiwert aegymhortheit gyt ac ef. heb ȣybot onadūt hȣy hynny yny deuthant hyt yn yſtrat antarron aoed gyfarȣyneb arcaſtell. Ar caſtell aoed oſſodedic ar benn mynyd aoed ynllithraȣ hyt yn avon yſtȣyth. ac ar yravon ydoed pont. Ac ual ydoedynt ynſeuyll yno. megys yngȣneuthur magneleu. Ac yn medylyaȣ paffuryf y torrynt y caſtell. ydyd alithraȣd haeach yny oed pryt naȣn. Ac yna ydanuones y caſtellwyr

1113.

megys ymae moes gan y ffreinc góneuthur pob peth dróy ystryó. gyrru saethydyon hyt y bont y vickre ac óynt megys o delynt hóy ynansynhóraól dros y bont ygallei uarchogyon Murugaóc eu kyrchu yndeissyfyt ae hachub. Aphan welas y brytanyeit y saethydyon mor leó yn kyrchu yr bont. ynansynhóyrus y redas-*sant yny herbyn gan ryuedu paham mor amdiredus ybeidynt kyrchu ~~kyrchu~~ yr bont. Ac ual ydoed yneillrei ynkyrchu. arrei ereill yn saethu. Yna y kyrchaód marchaóc Murugaóc yn gynhyruus y bont. Arrei owyr gruffud ae kyferbynyaód ar ybont Ac ynteu yn aruaethu eu kyrchu óynteu. Ac yna eissoes y torres ymarch yvynógyl. Agóedy brathu y march ydygóyd|daód. Ac yna ydaruaethaód paób agóeóyr y lad ynteu. ae luryc ae hamdiffynnaód yny doeth neb un or vydin ae thynnu Aphangyfodes ynteu yffoes. Aphan welas y gedymdeithon ef ynffo y ffoassant óynteu oll. Ar brytanyeit ae hymlidyaód hyt yggórthallt ymynyd. Y doryf ol eissoes nys ymlidyaód. namyn heb geissaó na phont na ryt kymryt eu ffo aónaethant. Aphan welas y ffreinc o benn ymynyd yrei hynny ynffo. Kyrchu y doryf vlaen aónaethant allad kymeint ac agaóssant. Ac yna y góasgaróyt ygióta6t bobyl. ar draós y wlat o bop tu. Rei ae hannifeileit gantunt. rei ereill góedy adaó pop peth namyn keissaó amdiffyn eu heneideu. yny edewit yr holl wlat yndiffeith. Yggyfróg hynny ydanuones henri vrenhin kenadeu att owein uab kadógaón y erchi idaó dyuot attaó. Ac ynteu yny lle adeuth. Aphandoeth ydywaót ybrenhin órthaó. Vygkaredickaf owein aatwaenost di ylleidryn gan ruffud uab rys yssyd megys ynfoedic yn erbyn vyntywyssogyon .i. Achaws achanys credaf i dyuot ti yn gyóira gór ymi. Mi avynnaf dyuot ti yndywyssaóc llu gyt am

mab i y wrthlad gruffud uab rys. Ami awnaf lywarch uab trahaearn yngedymdeith it. kanys ynaóch chwi aóch deu ydymdiredaf .i.. Aphan ymchoelych drachefyn mi adalaf bóyth it yndeilóg. A Naóenhau aorac yọ owein or edeóidion hynny. achynuNaó Nu aNywarch gyt ac ef amynet ygyt hyt ynystrat tywi Ne y tebygỹt uot grufud uab rys yn trygyaó. kanys coetir oed. Ac yn anaód ygerdet ac yn haód * ruthraó gelynyon ynda6. Aphan deuth y teruyneu yr wlat. koN wyr owein a mab y drenhin ae kymhortheit a anuonassant eu bydinoed yr coedyd. paób ydan yr amot hónn hyt nat arbedei neb ygledyf nac yór nac ywreic nac y vab nac yverch. Aphóy bynnac adelynt nas gochelynt heb ylad neu ygrogi neu drychu yaelodeu. Aphan gigleu giótaót bobyl ywlat hynny. Keissaó awnaethant ffuryf y geNynt gaffel amdiffyn. Ac ueNy ygóasgaróyt óynt. Rei yn Nechu yny coedyd. EreiN yn ffo y wladoed ereiN. EreiN ynkeissaó amdiffyn or kestyN nessaf y dathoedynt o honunt. Megys y dywedir ymyón brytanaól diaereb. Ỳ ki alyha yr aryf y brather ac ef. A góedy góasgaru y Nu y dan y coedyd. Ef adamweinaód yoóein ac ychydic o nifer gyt ac ef. kyrchu y coet o amgylch degwyr aphetwar vgein. Ac ynedrych awelỹt oleu dynyon. Nachaf y góelynt oleu dynyō ynkyrchu parth achasteN kaer vyrdin Ne daroed udunt góneuthur euhedóch. Ac euhymlit aónaeth hyt yn agos yr casteN. A góedy eu dala yno ymchoelut at y gedymdeithon aorac. Ỳgkyfróg hynny y damweinaód dyuot Nu or fflemisseit. oros y gaer vyrdin ynerbyn mab y drenhin. a geralt ystiwert gyt ac óynt. nachaf yrei adiaghyssei yndyuot dan Nef tu ar casteN. Ac yn menegi y hyspeila o owein uab kadógaón ae hanreithaó. A phan gigleu y fflemisseit hynny. ennynnu awnaethant

1113.

o gaſſaȣl gyghoȥuynt yn erbyn owein oachaȣs y mynych godyant awnathoed kedȳdeithon owein udunt kyn no hynny. Ac o annogedigaeth geralt yſtiwert. y gȣȥ y llofgaſſei owein y gaſtell. ac adugaſſei y dȥeiſ neſt y wreic ae anreith. Y ymlit aoȥugant heb debygu bot gȣȥthȣynebed idaȣ owein a gymerth y hynt yn araf. Ac ȣynteu gan yymlit ef adoethant yn ebȥȣyd hyt ylle yd oed ef ar anreith gantaȣ. A * phanwelas kedymdeithon owein diruaȣȥ luoſſogrȣyd yny hymlit. Dyȣedut aȣnaethant ȣȥthaȣ. Nyma luoſſogrȣyd yn ymlit heb allu oneb ym wrthlad ac ȣynt. Atteb udunt aȣnaeth. nac ofynheȣch heb achaȣs. bydinoed y flemiſſeit ynt. A gȣedy dywedut hynny oneb vn gynnȣȥyf eukyȥchu awnaeth A diodef y kynnȣȥyf awnaethant yn ȣȥaȣl. gȣedy bȣȥȣ ſaetheu o bop tu y dygȣydaȣd owein yn vȥathedic. A gȣedy ydygȣydaȣ ef ydymchoelaȣd ygedymdeithon ar ffo. A phan gigleu lywarch ab trahaearn kynny. ymchoelut ef ae wyȥ dȥachefyn awnaeth y wlat. A gȣedy y lad ef y kynhalaȣd y vȥodyȥ yȥann ef opowys. eithyȥ yȥ hynn adugaſſei owein kyn no hynny gan uaredud uab bledyn. nyt amgen kereinaȣc. yȥ hȣn oed eidaȣ Madaȣc uab ridit. kynno hynny. Ac enweu y vȥodyȥ yw y rei hynn Madaȣc abcadȣgaȣn. o wenllian uerch ruffud ab kynan. Ac einaȣn uab kadȣgaȣn. o ſanan uerch dyſynwal. Artrydyd oed ȣȥgan uab kadȣgaȣn. o ell|lyȣ uerch kediuoȥ uab gollwyn. y gȣȥ avu bennaf arglȣyd ar wlat dyfet. Petwyȥyd uu henri uab kadȣgaȣn. oȥ ffranges uerch pictot tywyſſaȣc oȥ ffreinc. Ac ohonno y bu uab arall idaȣ aelwit gruffud. Y whechet vu uaredud. o euron uerch hoedlyȣ ab kadȣgaȣn ab eſtan. Agȣedy hynny ydymaruolles einaȣn uab kadȣgaȣn uab bledyn. A gruffud uab Maredud ab bledyn ygyt y dȣyn kyȥch ambenn

1113.

kaſtell vchtrut uab etwin aoed gefynderȣ y vledyn vrēhin. Kanys Jweryd mam owein ac uchtrut ueibon etȣin. a bledyn uab kynfyn oedynt vraȣt achwaer un dat. ac nyt vn vam. Kanys agharat verch varedud uab owein oed vam vledyn. Achynuyn ab gȣerſtan oed y tat ell deu. Arcaſtell rydywedaſſam ni aoed yny lle aelwit kymer ymmeironyd. kanys kadȣgaȣ uab bledyn arodaſſei veiron*nyd. achefeilaȣc y uchtrut uab etwin dan amot y uot yn gywir idaȣ ac y veibon. ac yn ganhorthȣy ynerbyn yhol elynyon. Ac ynteu oed ȣrthȣynebȣr ac ymladgar ynerbyn kadȣgaȣn Ae veibon. Agȣedy colliowein heb debygu gallu dim oveibon kadȣgaȣn awnaeth ef ydywededic caſtell. Ac ȣynteu adywedaſſam ni vry drȣy ſorr agyrchaſſant y caſtell. ac ae llofgaſſant. Agȣedy fo rei or gȣercheitweit. adyuot ereill attunt hȣynteu y hedȣch. Achub aȣnaethant ueironnyd a chefeilaȣc aphenllyn aerannu y rygtunt. Ac y rufud uab Maredud y deuth kefeilaȣc. A Madaȣc ahanner penllyn. Ar rāner arall ypenllyn y veibon kadȣgaȣn uab bledyn. Ygkyfrȣg hynny y teruynaȣd y vlȣydyn ynvlin ac ynatcas y gan baȣp. Y vlȣydyn rac ȣyneb y bu uarȣ gilbert uab rickert. A henri vrenh^in^ adrigyaȣd yn normandi o achaȣs bot ryfel yrygtaȣ abrenhin ffreinc. Ac velly yteruynaȣd y vlȣydyn honno. Y vlȣydyn rac ȣyneb y magȣyt annundeb yrȣg Howel uab Jthel aoed arglȣyd ar ros arywynaȣc. a meibon owein uab edwin. Gronȣ a ridit a llywarch y vrodyr yrei ereill. A howel aanuones kenadeu at varedud uab bledyn ameibon kadȣgaȣn uab bledyn. Madaȣc ac einaȣn. y eruynneit udunt dyuot yn borth idaȣ. Kanys oe hamdiffyn ȣynteu ae kanhaledigaeth yd oed ef yn kynnal y gyfran or wlat adathoed yn ran idaȣ. Ac ȣynteu pan glyȣſſant y ȣrthrymu ef o veibon owein

1113–5.

agynnullassant eu gôyr ae kedymdeithon ygyt. kymeint ac agaôssant yn baraôt. ual yn amgylch pedwar can ôr. Ac ydaethant yn y erbyn ydyffryn clôyt yr hônn aoed wlat udunt hôy. Ac ôynteu agynnullassant y gôyr gyt ac vchtrut eu hewythyr. adôyn ygyt ac ôynt yffreinc. o gaer Lion ynborth udunt. Ac ôynteu agyfaruuant a * howel a maredud a meibon kadôgaôn ae kymhortheit. agôedy dechreu brôydyr ymlad o bop tu aônaethant yn chôerô. Ac yny diwed y kymerth meibon owein ae kedymdeithon. ôedy Llad Llywarch uab owein a Jorwoerth uab nud gôr deôr enôaôc oed. A gôedy Llad Llawer abrathu Liaôs ydymchoelassant yn orwac drachefyn. A gôedy brathu howel yny vrôydyr y ducpôyt adref. Ac ympen y deugeinuet diwarnaôt y bu uarô. Ac yna ydymchoelaôd maredud a meibon kadôgaôn adref. heb lyuassu gorefgyn y wlat rac y ffreinc kyt keffynt y vudugolyaeth. Y vlôydyn rac ôyneb ybu uarô môrcherdarch y brenhin pennaf o Jwerdon yn gyflaôn oluossogrôyd abudugolyaetheu. Y vlôydyn arall gôedy hynny yd aruaethaôd henri vrenhī ymchoelut yloeger wedy hedychu y rygtaô abrenhin freinc. agorchymyn aorac yr mordôywyr kyweiraô llogeu idaô. A gôedy parattoi y llogeu anuon aônaeth y deu vab yn vn or llogeu. vn ohonunt aanyssit or vrenhines y wreic priaôt. Ac ohônnô ydoed y tadaôl obeith oevot yn gôledychu yn ol ydat. A mab arall oorderch idaô. ae vn verch. a llawer o wyr maôr gyt ac ôynteu. Ac owraged arbennic amgylch deucant. y rei adebygynt eu bot yndeilygaf ogaryant plant y brenhin. Ac ef a rodent udunt y llog oreu adiogelaf aodefei ymor donneu Ar morolyon dymheftloed. A gôedy eu mynet yr llog dechreu nos. diruaôr gyffroi aorac y mordonneu drôy eu kymell o dymheftlaôl uordôy a dryc|drum.

1115–7.

ac yna y kyfaru[u] y llog a chreigaȣl garrec. aoed yn dirgel dan ytonneu heb ȣybot yr llogwyr. ac ytorres y llog genti yndrylleu. ac y bodes y meibon ar nifer aoed ygyt ac ȣynt hyt na diegis neb o nadunt. Ar brenhin aeſkynnaſſei ymyȣn llog arall yn y hol. A chyt gyffroi o diruaȣryȣn dymheſtleu ymordonneu. Eiſſoes ef adiegaȣd yr tir. A phan gigleu ry fodi y veibon drȣc * ydaeth arnaȣ. Ac ygkyfrȣg hynny y teruynȣys y vlȣydyn honno. Y vlȣydyn rac ȣyneb ypriodes henri vrenhī merch neb un dywyſſaȣc or almaen Kanys kyn no hynny gȣedy marȣ merch y moel kȣlȣm y wreic aarueraſſei yn waſtat o orderchu. A phandoeth yr haf rac ȣyneb y kyffroes henri vrenhin diruaȣr greulaȣn lu yn erbyn gȣyr poȣys. nyt amgen maredud uab bledyn ac einaȣn amadaȣc a morgan meibon kadȣgaȣn uab bledyn. A phanglyȣſſant ȣynteu hynny. anuon kenadeu aorugant. at ruffud uab kynan aoed ynkynal ynys Von. y eruynneit idaȣ bot yngyt aruoll ac ȣynt ynerbyn y brenhin. ual y gellynt warchadȣ yndiofyn yn ynyalȣch y gȣlat. Ac ynteu drȣy gynhal hedȣch ar brenhin. adywaȣt y foynt hȣy y deruyneu y gyfoeth ef. y parei y hyſpeilaȣ ae hanreithaȣ ac ygȣrthȣynebei. A phan wybu uaredud a meibon kadȣgaȣn hynny. kymryt kygor awnaethant. Ac yny kygor y kaȣſſant. adaȣ teruyneu y gȣlat ehunein. achymry[t] euhamdiffyn yndunt. Ar brenhin aeluoed adyneſſayſſant y deruyneu powys Ac yna ydanuones Maredud uab bledyn ychydic oſaethydyon ieueinc y gyuerbynyeit y brenhin myȣn gȣrthallt goedaȣc ynyal fford ydoed yndyuot. Val y gellynt aſaetheu ac ergydyeu wneuthur kynnȣryf ar yllu. Ac ef adamweinaȣd ynyr aȣr ydathoed y gȣyr Jeueinc hynny yr ȣrthallt dyuot yno ybrenhī ae lu. Ar gȣyr ieueinc hynny aerbynnyaſſant yno y brenhin

ae lu. dróy diruaór gynnóryf gellóg faetheu ymplith y llu awnaethant. Agwedy llad llaóer abrathu ereill. Vn or góyr ieueinc adynnaód y vwa ac aellygaód faeth ymplith y llu. A honno adygóydaód ygkedernit arueu y brenhin gyferbyn ae gallon. heb óybot yr góyr ae byryaód ac nyt argywedaód yfaeth yr brenhin rac daet yrarueu. Kanys llurygaóc oed * namyn ffreillaó aorúc y faeth drachefyn yr arueu. Ac ofynhau yn uaór awnaeth y brenhin. adiruaór aruthder agymerth ynda6. yngymeint haeach apheibrethit trwyda6. Ac erchiyr lluoed a ónaeth bebyllya6. Agofyn aorúc pyrei aoedynt mor ehofyn ae gyrchuef yn gynleóet ahynny. Adywedut awnaethpóyt ida6 mae rei o wyr ieueinc a anuonaffit y gan varedud uab bledyn awnathoed hynny. Ac anuon awnaeth attunt genadeu. y erchi udunt dyuot atta6 dróy gygreir. Ac óynteu adoethant. A gofyn awnaeth udunt póy ae hanuonaffei yno. Adywedut aónaethant mae Maredud. A gofyn udunt aónaeth awydynt py le ydoed vardud yna. Ac atteb awnaethant y góydynt Ac erchi awnaeth ynteu y uaredud dyuot y hedóch. Ac yna y doeth Mared[ud] a meibon kadógaón y hedóch y brenhī. Agóedy hedychu y rygtunt. yd ymchoelaód y brenhin y loeger dróy ada6 deg mil owarthec yn dreth arpowys. Ac uelly y teruynaód y vlóydyn honno.

Agein mlyned achant amil oed oet crift. pan ladaód gruffud ab rys ab teódór. ruffud uab trahaearn. Ý vlóydyn rac óyneb y bu uaró einaón uab kadógaón y gór aoed yn kynhal rann o powys ameironyd. ý wlat adugaffei ef ygan uchtrut uab etwin. Ac órth y agheu y kymynnaód y varedud uab bledyn y ewythyr. Ac yna ygellygóyt Ithel uab ridit o garchar henri vrenhin. Aphan

1118–21.

doeth y geiſſaȣ ran opowys ny chauaſ dim. Aphan gigleu gruffud ab kynan ry wrthlad maredud ab kadȣgaȣn ovaredud uab bledyn y ewythyr. Anuon awnaeth kadwallادyr ac owein y ueibon adiruaȣr lu gantunt hyt ym meironnyd. Adȣyn awnaethant holl dynyon y wlat ohonei. aeholl da gyt ac ȣynt hyt ynllyyn. Ac odyna kynullaȣ llu awnaethant. ac aruaethu allduda ȣ holl wlat powys. A heb allu * kyfleȣni eu haruedyt ydymchoelaſſāt drachefyn. Ac yna ydymaruolles Mared[ud] uab bledyn. ameibon kadȣgaȣn uab bledyn ygyt. ac ydiffeithaſſant yrann vȣyaf o gyfoeth llywarch uab trahaearn. O|chaȣs nerthu ohonaȣ veibon grufud ab kynan ac ymaruoll ac ȣynt. Y vlȣydyn rac ȣyneb yladaȣd grufud uab Maredud ab bledyn Ithel ab ridit ab bledȳ y gefynderȣ yggȣyd maredud y dat. Ac ynol ychydic o amſer wedy hynny y ladaȣd catwallaȣd[yr] ab gr[ufud] ab kynan ytri ewythyr. Dyt amgen gronȣ. aridit. a meilyr. meibon owein ab edwin. Kanys agharat uerch owein ab edwin oed wreic ruffud ab kynan. Ahonno oed vam katwallaȣn ac owein achatwaladyr allaȣer overchet. Yny vlȣydyn honno y magȣyt teruyſc y rȣg Morgan. a Maredud meibon katwgaȣn uab bledyn. Ac yny teruyſc hȣnnȣ y ladaȣd morgan ae laȣ ehunan varedud y vraȣt. Y ulȣydyn rac ȣyneb yr ymchoelaȣd henri vrenhin o normandi. wedy hedychu yrygtaȣ arneb y buaſſei teruyſc ac ȣynt kyn nohynny. Y vlȣydyn rac ȣyneb y gȣrthladȣyt grufud uab rys or kyfran o dir arodaſſei y brenhin idaȣ wedy y gyhudaȣ yn wiryon heb y haedu ohonaȣ or frein[c] aoedynt ynkyt breſſȣylaȣ ac ef. Yn diwed y vlȣydyn honno y bu uarȣ Daniel uab fulyen eſcob mynyȣ. ygȣr aoed gymodredȣr y rȣg gȣyned aphowys yny teruyſc aoed yrygtunt. Ac nyt oed neb aallei gael

bei nac aglot arnaȣ. kanys tagnefedus oed acharedic gan baȣb. Ac archdiagon powys oed. Yvlȣydyn rac ȣyneb y bu uarȣ gruffud uab bledyn. Ac yna y dellit Nywelyn ab owein y gan varedud uab bledyn y ewythyr uraȣt y hendat A hȣnnȣ ae rodes yn Naȣ baen uab Ieuan. y gȣr ae hanuones ygkarchar hyt ygkaſteN brych. Yn diwed y vlȣydyn honno ybu uarȣ morgan ab kadȣgaȣn yn cipris yn ymchoelut o gaeruſſalem wedy mynet oho*naȣ a chroes ygaeruſſalem o achaȣs rylad ohonaȣ kyn no hynny varedud y vraȣt Yvlȣydyn gȣedy hynny y gȣrthladȣyt Maredud uab Nywarch oe wlat. y gȣr aladaȣd mab meuruc y gefynderȣ. Ac adallaȣd meibon griffri ydeu gefynderȣ ereiN. a Ieuaf uab owein ae gȣrthladaȣd. ac yny diwed ae Naȣaȣd. Y vlȣydyn rac ȣyneb y Nas Iorwoerth uab Nywarch. gan lyȣelyn ab owein ym powys. Ychydic gȣedy hynny ydyſpeilȣyt Nywelyn uab owein oelygeit ae geiNeu y gan uaredud uab bledyn. Yny vlȣydȳ honno. y Nas Ieuaf uab owein y gan veibon Nywarch uab owein ygefynderȣ. Yn diwed y vlȣydyn honno y Nas Madaȣc uab Nywarch y gan ueuruc y gefynderȣ uab ridit. Yndiwed y vlȣydyn rac ȣyneb ydyſpeilȣyt Meuruc uab ridit oe deu lygat ae dȣygeiN. Y vlȣydyn rac ȣyneb y Nas Iorwoerth uab owein. Yny vlȣydyn honno y Nas Kadwgaȣn uab gruff^u^d ab kynan ygan gadȣgaȣn uab gronȣ ab owein ygefynderȣ. ac einaȣn uab owein. Ychydic wedy hynny ybu uarȣ mared^ud^ ab bledyn tegȣch adiogelȣch hoN powys aehamdifyn wedy kymryt Iachwyaȣl benyt arygorff. a gleindit ediuarȣch yny yſprryt. A chymyn corff criſt. ac oleȣ. ac aghen.

Deg mlyned arhugein achant amil oed oet criſt. Pan vu bedeir blyned ar vntu heb gahel neb yſtorya or aeNit y gȣarchadȣ dan gof. Ar Vlȣydȳ rac

1125–34.

ỏyneb y bu uarỏ Henri uab gỏilim baſtard brenhin Loegyr achymry ar holl ynys y am hynny yn normandi y trydyd dyd ovjs racuyr. Ac yny ol ynteu y kymerth Eſteuyn o blaes y nei gorỏn y deyrnas ydreis. Ac ydareſtygaỏd yn ỏraỏl idaỏ holl deheu Loegyr. Y vlỏydyn rac ỏyneb y llas Rickert uab gilbert y gan uorgan ab owein. gỏedy hynny y kyffroes owein. a chatwaladyr veibon gruffud uab kynā diruaỏr greulaỏn lu y geredigyaỏn y gỏyr aoed degỏch yr holl vrytanyeit aediogelỏch ae rydit ae kedernit y gỏyr a oedynt deu arderchaỏc urenhin adeu * haelon. Deu diofyn. Deu leỏ deỏrỏn. Deu detwydyon. Deu huodrỏn. Deu doethon. Diogelwyr yr eglỏyſſeu ae hardemylwyr. Ac amdiffynnwyr y tlodyon. Kofrudyon y gelynyon. Hedychwyr yrei ymladgar. Dofyodrỏn y gỏrthwynebwyr. Y diogelaf naỏd y baỏp or afoei attunt. Y gỏyr aoedynt yn rac rymhau o nerthoed eneideu achyrf. Ac yn kyt|gynhal ynvn holl deyrnas y brytanyeit Yrei hynny ar yruthur gyntaf aloſgaſſant gaſtell gỏallter. Ac odyna wedy kyffroi euhadaned ydymladyſſant achaſtell aber yſtỏyth^ac y llofgaſſant. Achyt a Howel uab maredud. a madaỏc uab idnerth. a deu uab howel. nyt amgen maredud arys a loſgaſſant gaſtell rickert dylamar. Achaſtell dinerth. achaſtell caer ỏedrỏs. Ac odyna yr ymchoelaſſant adref. Yndiwed yvlỏydyn honno y doethant eilweith ygeredigyaỏn. Achyt ac ỏynt amylder lu o detholedigyon ymladwyr. ual amgylch whemil o bedyt aduỏyn. A dỏy vil ovarchogyon llurugaỏc. Ac ynborth udunt y deuth gruffud uab rys. ahowel uab Maredud ovrecheinaỏc. amadaỏc uab idnerth. adeu uab howel uab maredud. Ar rei hynny oll yn gyfun agyweiraſſant eu bydinoed y aber dyui Ac yny herbyn y deuth yſteuyn gỏnſtabyl a

1135.

robert uab martin. ameibon geralt yſtiwert. ar holl flemiſſeit. ar holl uarchogyon. ar holl ffreinc. o aber ned hyt yn aber dyſi. A gȣedy kyrchu y vrȣydyr ac ymlad yn greulaȣn o bop tu. y kymerth y fflemiſſeit ar normanyeit euffo herȣyd euharueredic defaȣt. A gȣedy llad rei onadunt. allosgi ereill. athrychu traet meirch ereill. a dȣyn ereill ygkeithiwet abodi yran vȣyaf. Megys ynvydyon yn yr avon. A gȣedy colli amgylch teir mil oe gȣyr. yndrift aflawen ydymchoelaſſant y|gȣlat. A gȣedy hynny ydymchoelaȣd owein achatwaladyr yȣ gȣlat yn hyfryt laȣen gȣedy caffel y uudugolyaeth. A chael diruaȣr amylder o geith ac anreitheu agȣiſcoed * maȣrweirthaȣc ac arueu. Y vlȣydyn rac ȣyneb y bu uarȣ gruffud uab rys. Neuuer achedernit ac aduȣynder y deheuwyr. Y vlȣydyn honno y bu uarȣ gruffud ab kynan. brenhin a phennadur a thywyſſaȣc ac amdiffynnȣr a hedychȣr holl gymry. Gȣedy liaȣs berigleu mor athir. gȣedy anneiryf anreitheu a budugolyaetheu ryueloed. Gȣedy goludoed eur ac aryant adillat maȣrweirthaȣc. Gȣedy kynullaȣ gȣyned y briaȣt wlat yrei adaroed y gȣaſgaru kynnohyn yymrauaelon wlatoed. ygan normanyeit. Gȣedy adeilat llaȣer o eglȣyſſeu yny amſer ae kyſſegru y duȣ. Gȣedy gȣiſgaȣ ymdanaȣ yn vynach. achymryt kymun corff criſt. ac oleȣ. ac aghenn. Yny vlȣydyn honno y bu uarȣ Jeuan archeffeirat llan badar y gȣr aoed doethaf or doethon. Gȣedy arwein y vuched yngrefydus. heb pechaȣt marwaȣl hyt agheu. yny trydyd dyd ogalan ebrill. Yny vlȣydyn honno hefyt y doeth meibon gruffud abkynan y dryded weith ygeredigyaȣn. ac yllosgaſſant gaſtell yſtrat meuruc. A chaſtell llan yſtyffan. A chaſtell kaer vyrdin. Y vlȣydyn rac ȣyneb y doeth yr amherodres y loegyr yrdareſtȣg brenhinyaeth loegyr y

1135–7.

henri ymab. Kanys merch oed hi yhenri gyntaf uab góilī baſtard. Ac yna ybudyffic ar yr heul y deudecuet dyd ogalan ebrill. Ỳ vlóydyn rac óyneb yllas kynwric ac owein ygan deulu madaóc uab maredud. Ỳ vlóydyn wedy hynny y bu uaró madaóc uab Idnerth. Ac yllas maredud uab howel ygan ueibon bledyn uab kynuyn góyn Ỳ vlóydyn racllaó y llas howel uab maredud uab ryderch or cantref bychan. dróy dychymic rys uab howel. Ac ef ehun aelladaód..

DEugein mlyned achant amil oed oet criſt. pan las howel uab maredud ab bledyn y gan neb vn heb wybot póy aelladaód. Ac yna yllas howel ae *vraót Meibon Madaóc uab idnerth. Ỳ vlóydyn wedy hynny y llas anarót uab gruſud gobeith a chedernyt a gogonyāt y deheuwyr y gan deulu kadwaladyr y gór ydoedynt yn ymdiret idaó. yn gymeint ac ofynhaei. Agóedy clybot o owein y vraót hynny dróc uu gantaó. Kanys amot awnathoed rodi y verch y annarót. Amynnu kadwalyr y vraót awnaeth. Ac yna ydachubaód howel uab owein. ran kadóaladyr ogeinaón. ac y llofges caſtell cadóaladyr aoed ynaber yſtóyth. Ac yna yllas milo iarll henfford aſaeth neb un uarchaóc idaó ehun aoed yn bóró karó yn hela y gyt ac ef. Ỳ vlóydyn rac llaó panwelas cadwaladyr uot owein y vraót yny órthlad oeholl gyfoeth. Kynullaó llyges o Iwerdon aorac. A dyuot yaber menei yrtir. Ac yndywyſſogyon gyt ac ef ydoed otter. amab turkyll. amab cherólf. Ỳgkyfróg hynny y kytuunaód owein achatwaladyr megys y góedei y vrodyr athróy gyghor y góyr da y kymodaſſant. Aphan glywyt hynny ydellis germanóyr cadwaladyr. Ac ynteu aamodes udunt dóy vil ogeith ac vella ydymrydhaaód y órthunt. aphangigleu owein hynny abot

1137–43.

yvraȣt ynryd. teruyſgus gynnȣrȣf awnaeth arnunt ae kyrchu yndiennic aorȣc. Ag ȣedy llad rei adala ereill. ae keithiȣaȣ yn warthwydus ydiaghyſſant arffo hyt yn dulyn Y vlȣydyn honno y bodes pererinyon ar vor groec yn mynet achroes y gaeruſſalem. Yny vlȣydyn honno ydatgyweiryaȣd hu uab raȣlf gaſtell gemaron ac ygorreſkynnaȣd eilweith vaelenyd Ac yna ydatkyweirȣyt colȣyn. ac y dares|tygȣyt eluael yr eilweith yr ffreinc. Y vlȣydyn rac ȣyneb. y delis omortemer rys uab howel ac ycarcharaȣd ymyȣn carchar. wedy llad rei oe wyr a dala ereill. Ac yna y diffeithaȣd howel uab owein achynan y vraȣt. Ag ȣedy bot brȣydyr arȣdoſt. Achael onadunt y vudugolyaeth ydymchoelaſſant dra*chefynn adiruaȣr anreith gantunt. Ac yna ydeuth gilbert iarll uab gilbert arall ydyfet. Ac ydareſtygaȣd y wlat ac ydadeilaȣd kaſtell caer uyrdin. achaſtell arall ym mab udrut. Y vlȣydyn rac ȣyneb ~~ȣyneb~~ y bu uarȣ ſulyen richmarch mab y ſeint padarn mab maeth yr eglȣys. Agȣedy hynny athro arbennic. gȣr oed aeduet y geluydyt. Ymmadrodȣr dros y genedyl. adadleuȣr kymedrodwyr. Hedychȣr amryuaelon genedloed. adurn ovrodyeu eglȣyſſolyon ar rei bydolyon. y decuet dyd ogalan hydref. Gwedy kymryt Jachȣyaȣl benyt ar ygyſſegredigaeth gorff achymym corff criſt. ac oleȣ ac aghenn. Ac yna y llas Meuruc uab madaȣc. uab ridit. yr hȣnn aelwit meuruc tybodyat drȣy vrat. ygan ywyr ehun. Ac yna y llas maredud uab madaȣc uab Jdnerth. ygan hu omortymer. Y vlȣydyn honno y gorreſgynnaȣd cadell uab grufud gaſtell dinȣeileir yr hȣnn aȣnathoed gilbert Jarll. Y chydic wedy hyny y gorruu ef a howel ab owein gaer vyrdin drȣy gadarn ymryſſon. wedy llad llawer oe gelynyon abrathu ereill. Y chydic odydyeu wedy hynny. y

doeth yndeiſſyfyt diruaȣr luoſſogrȣyd orfreinc ar fflemiſſeit y ymlad ar caſtell. Ac yndywyſſogyon yny blaen meibon geralt yſtiwert. agwilim ab aed. A phan welas Meredud uab gruffud y gȣyr ygorchymynyſſit udunt gadȣryaeth y caſtell. ae amdiffyn. y elynyon yndyuot mor deiſſyfyt ahynny. Gyrru callon yny gȣyr aorac ae hannoc y ymlad. abot yndrech gantaȣ y vryt noe oet. Kanys kynn bei bychan y oet. Eiſſoes yd oed gantaȣ weithret marchaȣc. ac yn angrynedic dywyſſaȣc yn annoc y wyr y ymlad. Ac yn kyrchu ehun y elynyon yn arueu. Aphā * welas y elynyon bychanet oed ynifer ynamdiffyn o vyȣn y caſtell. drychafel yſcolyon ȣrth ymuroed aȣnaethant. Ac ynteu aodefaȣd y elynyon y yſkynnu tu ar bylcheu. Ac yndileſc ef ae wyr aymchoelaſſant yr yſcolyon yny ſyrthaȣd y gelynyon yny claȣd gan yrru ffo ar yrei ereill. ac adaȣ Ilia ȣs onadunt yn veirȣ. ar hynn adangoſſes idaȣ ydetwyd dyghetuen rac Ilaȣ ar gaffel daȣn o honaȣ. ar wledychu yny deheu. Kanys gorauu ac ef ynvab. ar laȣer owyr profedic yn ymladeu. Ac ynteu ac ychydic onerth gyt ac ef. Yn diwed y vlȣydyn honno y bu uarȣ run uab owein. ynwas Jeuanc clotuorauſſaf o genedyl ybrytanyeit. Yr hȣn auagyſſei uoned yrieni ynarderchaȣc. Kanys tec oed offuruf adrych. ahynaȣs o ymadrodyon. A huaȣdyr ȣrth baȣb. Rac welaȣdyr ynrodyon. Vfud ymplith y dylȣyth. Balch ymplith y eſtronyon. Atherȣyn garȣ ȣrth yelynyon. Digrif ȣrth y gyfeillon. Hir y dyat. Gȣynn y liȣ. Pengrych melyn y wallt. Hir y ȣyneb. Goleiſſon y lygeit Ilydanyon aIlaȣenyon. Wynȣgyl hir praff. Dȣy vron lydan. Yſtlys hir. Wordwydyd praffyon. Eſkeired hiryon. ac oduch y draet yn veinon. Traet hiryon abyſſed unyaȣn oed idaȣ. Aphan doeth y chȣedyl y irat agheu ef at

1145.

ydat owein. ef agodet ac adrifftaaôd yn gymeint. ac na allei |dim| y hyfrytau ef. nathegôch teyrnas na digrifôch. na chlaear didanôch gôyrda. nac edrychedigaeth maôrweirthogyon betheu. namyn duô rac welaôdyr pob peth adrugarhaaôd oe arueredic defaôt adrugarhaaôd ôrth genedyl y brytanyeit. rac ycholli. megys llog heb lyôyaôdyr arnei. agedwis udunt owein yn dywyssaôc arnunt. Kanys kyn kyrchassei anniodefedic drifftit vedôl y * y tyôyssaôc. Eissoes ef aedrychafaôd deissyfyt lewenyd drôy racweledigaeth duô. Kanys yd oed neb un gastell aelwit y rôyd gruc. y buessit ynvynych ynymlad ac ef heb dygyaô. A phan doeth gôyrda owein ae deulu y ymlad ac ef. ny allaôd nac anyan ylle nae gedernit ymôrthlad ac ôynt yny losget y castell ac yny diffeithôyt. gôedy llad rei or kastellwyr adala ereill ae karcharu. A phan gigleu owein yntywyssaôc ni hynny y gellygôyt ef y gan bob dolur. aphob medôl côynuanus. Ac ydoeth yn rymus yranfaôd aoed arnaô gynt. Y vlôydyn rac ôyneb yd aeth lowys urenhin freinc. ac amheraôdyr yr almaen gyt ac ef. adiruaôr luossogrôyd o ieirll a barôneit a thywyssogyon gyt ac ôynt achroes y gaerussalem Y vlôydyn honno y kyffroes cadell ab guffud aeurodyr. Maredud. A rys. a gôilim ab geralt ae urodyr gyt ac ôynt lu ambenn castell gôiss A gôedy annobeithaô onadunt yny nerthoed ehunein. Galô howel ab owein aorugant ynborth udunt. kanys gobeithaô ydoedynt oedeôr leô luossogrôyd ef parottaf y ymladeu aedoethaf gyghor gaffel onadunt y uudugolyaeth. A howel megys ydoed chwannaôc yn wastat y glot agogonyant aberis kynullaô llu gleôaf apharottaf yn enryded yharglôyd. kymryt hynt aorruc tu ar dywededic gastell A gôedy yaruoll ynenrydedus or dyôededigyon uarôneit yno pebyllyaô aônaeth. A holl

1145–6.

negeſſeu yryfel aȣneit oegygor ef aedechymmic. Ac uelly ydoed baȣb or aoed yno y oruchel ogonyant abudugolyaeth drȣy oruot arycaſtell oe gyghor ef gan diruaȣr ymryſſon ac ymlad. Ac odyno ydymchoelaȣd howel yn uudugaȣl drachefyn. ny * bu bell gȣedy hynny y vu teruyſc yrȣg howel a chynan veibon owein achadwaladyr. Ac odyna ydeuth howel or neilltu. achynan ortu arall hyt ymmeironnyd ae galȣ aȣnaethant y laȣ gȣyr y wlat agilyaſſant y noduaeu eglȣyſſeu gan gadȣ ac ȣynt y noduaeu ac enryded yr eglȣys. Ac odyna kyweiryaȣ eu bydin awnaethant tu achynuael caſtell cadwaladyr yr hȣnn awnathoed katwaladyr kynno hynny yny lle ydoed moruran abat yty gȣyn yn yſtiȣert. yr hȣnn aȣrthodes rodi y ȣrogaeth udunt. kyt yſprofit weitheu drȣy arȣydon vegythyeu. gȣeitheu ereill drȣy anneiryf anregyon arodyon agynigyit idaȣ. Kanys gȣell oed gantaȣ uarȣ yn aduȣyn. no dȣyn yvuched yndȣyllodruſ. Aphanwelas howel achynan hynny. dȣyn kyrch kynhyruus yr kaſtell aȣnaethant. ae ennill aorugant ydreis. Ac ovreid ydiegis ceitweit y caſtell. drȣy nerth y kyfeillon wedy llad rei oe kedymdeithon. a brathu ereill. Yny vlȣydyn honno y bu uarȣ robert Jarll uab henri. gȣr agynhalaſſei ryfel ynerbyn eſteuyn urenhin deudegmlyned kyn no hynny. Y vlȣydyn honno y bu varȣ gilbert iarll. Y vlȣydyn rac ȣyneb y bu uarȣ vchtrut eſcob llan daf gȣr maȣr y volyant. ac amdiffynnȣr yr eglȣyſſeu. gȣrthȣynebȣr y elynyon yny berfeith heneint. Ac yny ol ynteu y bu eſcob nicol uab gȣrgant Yny vlȣydyn honno y bu uarȣ bernart eſcob mynyȣ. yny drȣyded vlȣydyn ardec arhugeint oeeſcob. aȣt gȣr enryſed y volyant. a dyȣaȣld^er a ſanteidrȣyd oed. wedy diruaȣryon lafuryeu ar vor a thir. ȣrth beri y eglȣys vynyȣ y hen

1146–7.

rydit. Ac yny ol ynteu ydyneſſaaȣd yn eſcob dauyd uab gerald archdiagaȣn keredigyaȣn. Yny vlȣydyn honno y bu uarȣ robert eſcob henforȣd gȣr o*ed herȣyd ynbarnȣryaeth ni grefydus achyflaȣn oweithredoed cardodeu a hegar borthȣr ytlodyon. Ac arbennic degȣch yr eglȣyſſeu yngyflaȣn odydyeu da hyt nalygrit cadeir yr ueint brelat hȣnnȣ oanheilȣg erlynyaȣdyr. Yna yd urdȣyt gilbert abat kaer loyȣ yn eſcob yn henforȣd. Yny vlȣydyn honno ybu uaȣr uarȣolyaeth yn ynys prydein. Y vlȣydyn rac ȣyneb ydadeilaȣd owein uab grufud ab kynan gaſtell yn ial. Y ulȣydȳ hōno ydadeilaȣd kadwaladr uab gruffud gaſtell llan ryſtut ogȣbyl ac y rodes yrann ef y geredigyaȣn a chadȣgaȣn y vab. Ygkylch diwed y vlȣydyn honno ydadeilaȣd Madaȣc uab maredud gaſtell croes hyſſwallt. Ac yrodes gyfeilaȣc yowein ameuruc veibyon grufud ab maredud y nyeint. Y vlȣydyn rac ȣyneb ydatgyweiraȣd Cadell ab gruffud gaſtell caer vyrdin yr tegȣch achedernit y deyrnas. ac ydiffeithaȣd kedweli Yny ulȣydyn hōno y carcharaȣd owein verhin gȣyned. gynan y uab. Yny ulȣydȳ honno y delis howel uab owein gatuan uab kadwaladyr y gefynderȣ ac ydachubaȣd y tir ae gaſtell. Dy bu bell wedy hynny yny doeth meibon gruffud uab rys. Cadell a meredud a Rys. allu gantunt y geredigyaȣn. ae gorefcyn hyt ynaeron. Yny ulȣydyn honno ydarparaȣd Madaȣc uab maredud vrenhin powys. drȣy nerth randȣlf iarll caer lleon. kyuodi ynerbyn owein gȣyned. Agȣedy llad pobyl y ganhorthȣywyr ef yd ymchoelaȣd yrei ereill y kefyne y ffo....

Deg mlyned adeugein achantamil oed oet criſt. pan duc cadell a maredud. a rys. veibon gruffud ab rys geredigyaȣn oll y gan howel ab owein eithyr un caſtell aoed ympenn gȣern ynllan vihagel. a

1147–50.

gȣedy hynny y gorefkynnaffant gaftell llan ruftut o hir ymlad ac ef. a gȣedy hynny y cauas hoȣel uab owein y caftell hȣnȣ y dreis ac y llofges oll. Ny bu hayach * wedy hynny. pan atgyweiraȣd cadell amaredud. veibon gruffud ab rys gaftell yftrat meuruc. Agȣedy hynny ydedewit cadell uab gruffud yn llet-uarȣ wedy y yffigaȣ yngreulaȣn orei owyr dinbych ac ef yn hela. Ac ychydic wedy hynny gȣedy kynnullaȣ o varedud a rys veibon gruffud ab rys y kedernit. ac yngyfun ykyrchaffant ȣhyr. ac ymlad aȣnaethant achaftell aber llychȣr aelofgi adiffeithaȣ y wlat. Yny ulȣydyn honno ydatgyȣeiraffant ȣy oll deu gaftell dinȣeleir ac ydatgyweiryaȣd howel ap owein gaftell hȣmfre yndyffryn clettȣr. Yulȣydyn rac ȣyneb ydyfpeilaȣd owein gȣyned guneda uab kadwallaȣn y nei uab y vraȣt oelygeit. Yny ulȣydyn hōno y lladaȣd llyȣelyn ab madaȣc ab maredud yftefyn uab baldwin. Yny ulȣydyn honno y gȣrthladyr oynys von. ac ybu uarȣ fimon archdiagon keueilaȣc gȣr maȣr y enryded ae deilygdaȣt. Yulȣydyn rac ȣyneb y kyweiraȣd maredud arys ueibon gruffud uab rys ypenwedic. Ac ymlad aȣnaethant achaftell howel aedorri. Nybu uaȣr ȣedy hynny yny gyrchaȣd meibon rys gaftell dinbych. A thrȣy urat nos wedy torri y porth y gorefkynnaffant y caftell. ac y dodaffant ef ygkadȣryaeth gȣilim ab geralt. Agȣedy daruot hynny ydiffeithaȣd rys uab gruff"d. adiruaȣr lu ygyt ac ef gaftell yftrat kyngen. Amis mei wedy hynny ykyrchaȣd maredud a rys veibon gruffud ygyt y caftell aberuyn Agȣedy llad y caftellwyr allofgi y caftell diruaȣr anreith ac anneiryf oludoed adugant gantunt. odyno eilȣeith y diffeithaȣd rys gefeilaȣc drȣy uudugolyaeth. Y vlȣydyn honno y bu uarȣ dauyd uab y moel cȣlȣm brenhin prydein. Yulȣydyn honno

y doeth henri tywyſſaͦc y loegyr. Ẏ ulͦydyn honno y bu uarͦ randͦlf iarll kaer lion. Ẏ ulͦydyn honno yd aeth cadell uab gruffud y bererindaͦt ac yd edewis y holl uedyant ae allu ygkatͦryaeth maredud a rys ~~arys~~ y vrodyr. * yny delei ef. Ẏ ulͦydy honno y bu uarͦ yſtefyn urenhin. Y gͦr a gynhelaͦd urēhī|nyaeth loegyr y dreis yn ol henri uab gͦilim baſtard. A gͦedy hͦnnͦ y doeth Henri uab yr amherodres y loegyr ac ykynhalyaͦd holl loeger. Ẏ ulͦydyn honno y bu uarͦ griffri ab gͦynn. Ẏ ulͦydyn rac ͦyneb y bu uarͦ Maredud uab gruffud ab rys brenhin keredigiaͦn ac yſtrat tyͦi a dyfet. yny bumet ulͦydyn arhugeint oe oet. gͦr aoed diruaͦr y drugared ͦrth dlodyon. Ac arderchaͦc y gedernit ͦrth y elynyon. Achyfoethaͦc y gyfyaͦnder. Ẏ ulͦydyn honno y bu uarͦ geffrei eſcob llan daf ar offeren iarll henford. Ẏ ulͦydyn rac ͦyneb. pan gigleu rys uab gruffud uot owein gͦyned y ewythyr yndyuot allu gantaͦ y geredigyaͦn yndileſc ykynullaͦd ynteu lu ac ydoeth hyt yn aber dyfi. ac yno y gorfͦyſſaͦd ar uedyr ymlad arodi brͦydyr y owein gͦyned ae lu. Ac ny bu bell wedy | hyttpann wnaeth yno gaſtell. Ẏ ulͦydyn honno y gͦnaeth Madaͦc uab maredud arglͦyd powys gaſtell ygkaer einaͦn ynymyl kymer. Ẏ ulͦydyn hōno y diegis meuruc uab gruffud nei yr dywededic uadaͦc oe garchar. Ny bu bell wedy hynny yny gyſſegrͦyt eglͦys ueir ymeiuot. Y ulͦydyn honno y bu uarͦ terdelach vrenhin conach. Ẏ ulͦydyn rac ͦyneb y duc henri uab yr amherotres vrenhin loegyr. ͦyr oed hͦnnͦ y henri uab gͦilim baſtard diruaͦr lu hyt ymaeſtir kaer leon. aruedyr dareſtͦg idaͦ holl wyned. ac yno pebyllyaͦ aͦnaeth. Ac yna gͦedy galu owein tywyſſaͦc gͦyned attaͦ. y ueibon ae nerth ae lu ae allu. pebyllyaͦ aoruc yndinas baſin. adiruaͦr lu gyt

1152–6.

ac ef. Ac yno goſſot oet brȣydyr ar brenhin awnaeth. apheri drychafel clodyeu. aruedyr rodi kat ar uaes yr brenhin. Agȣedy clybot or brenhī hynny. rannu ylu aorȣc. ac anuon Ieirll abarȣneit gyt achadarn luoſſogrȣyd olu aruaȣc ar hyt y * traeth tu ar lle ydoed owein ar brenhin ehun yndiergrynedic ac aruaȣc vydinoed parottaf y ymlad gyt ac ef agyrchyſſant drȣy y coet aoed yrygtunt ar lle ydoed owein ae gyferbynyeit aorȣc dauyd achynan veibon. Owein yny coet ynyal. arodi brȣydyr chȣerȣdoſt yr brenhin A gȣedy llad llawer oe wyr breid y diegis yr maeſtir. Aphangigleu owein bot y brenhin yndyuot idaȣ or tu draegefyn agȣelet o honaȣ y Ieirll or tu arall yn dyneſſau adiruaȣr lu aruaȣc gantunt adaȣ y lle aorȣc. A chilyaȣ aorȣc hyt ylle aelwir kil owein. Ac yna kynullaȣ aorȣc y brenhī ylu ygyt yn greulaȣn. Ac yna ypebyllyaȣd owein yntal llȣyn pina. Ac odyno yd argywedei ef yr brenhin dyd anos. a madaȣc uab maredud arglȣyd powys adewiſſaȣd y le y bebyllyaȣ rȣg llu y brenhin allu owein ual y gallei erbynyeit y kyrcheu kyntaf awnelei y brenhin. Ygkyfrȣg hynny ydyblygaȣd llyges y brenhin yvon. Agȣedy adaȣ yny llogeu y gȣyr noethon ar gȣaſſanaethwyr. y kyrchaȣd tywyſſaȣc yllogeu. arpenllogwyr ygyt ac ef y ynys von. ac yſpeilaȣ awnaethant eglȣys ueir ac eglȣys bedyr allaȣer oeglȣyſſeu ereill. ac am hynny y gȣnaeth duȣ dial arnunt. kanys trannoeth y bu vrȣydyr yrygtunt agȣyr mon. Ac yny vrȣydyr honno y kilyaȣd yffreinc. herwyd eu gnottaedic defaȣt gȣedy llad llaȣer onadunt adala ereill. abodi ereill. A breid y diegis ychydic onadunt yr llogeu wedy llad henri uab henri brenhin achanmȣyaf holl bennafduryeit y llogwyr. A gȣedy daruot hynny yhedychaȣd y brenhin ac owein. ac ykauaſ kadwaladyr y gyfoeth

1156.

drachefyn. Ac yna ydymchoelaȣd y brenhin y loegyr. Ac yna ydymchoelaȣd Jorȣoerth goch uab maredud y gaſtell Jal. ac yllofges. Y ulȣy[dyn ra]c ȣyneb *y llas* morgan ab owe*in* ———| drȣy dȣyll y gan ȣyr iuor uab meuruc. a * chyt ac ef y llas y trydyd goreu. A hȣnnȣ aelwit gȣrgan uab rys. Ac yna y gwledychaȣd Jorȣoerth uab owein uraȣt morgā dir caer llion a holl gyfoeth owein. Agȣedy gȣneuthur hedȣch o holl tywyſſogyon kymry ar brenhin. Rys uab gruffud ehunā adarparaȣd gȣneuthur ryfel ac ef. A duunaȣ awnaeth holl deheubarth ae holl annȣyleit ae holl da gantunt hyt ygcoedyd yſtrat twi. A phan gigleu y brenhin hynny anuon kenadeu aȣnaeth at rys. y uenegi idaȣ vot yngryno idaȣ vynet y lys y brenhin yn gynt noc ydygei loegyr achymry affreinc am y benn. ac nat oed neb eithyr ef ehunan yn ymerbynyeit arbrenhin. Agȣedy mynet yny gyghor ef ae wyrda. ef aaeth ylys y brenhin. Ac yno y goruu arnaȣ ȣanuod hedychu arbrenhin. dan amot idaȣ gaffel y kantref maȣr achantref arall orauynhei y brenhin yrodi idaȣ yngyfan heb y waſgaru. Ac ny chynhelis y brenhī ac ef hynny. Namyn rodi dryll o dir ygkyfoeth pob barȣn o amryuaelon uarȣneit. Achyt dyallei rys ydȣyll honno kymryt aȣnaeth y ranneu hynny. ae kynnal yn hedychaȣl. Ac ygkyfrȣg hȳny kyt dyfryſſyei roſſer iarll clar mynet y geredigyaȣn. eiſſoes nyſ beidei kyn hedychu rys arbrenhin. Agȣedy hynny dydgweith kyn kalan mehevin y doeth yyſtrat meuruc. Athrannoeth duȣ kalan mehevin ydyſtores y caſtell hȣnnȣ achaſtell hȣmfre. a chaſtell aber dyvi. achaſtell dineir. a chaſtell llan ryſtut. Ygkyfrȣg hynny y duc gȣallter cliffort. anreith o gyfoeth rys ab gruffud. Ac y lladawd oe wyr y wlat neſſaf idaȣ. Kanys ef bioed kaſtell llam ym

dyfri. A gȯedy daruot hynny yd anuones rys genadeu att y brenhin y beri iaȯn idaȯ amhynny. Ac yna ydymhoelaȯd teulu rys. Ac ygaſtell llan ym dyfri ydoet[h] rys attunt. ac y gorefgynnaȯd y caſtell. *Yna* y kyrchaȯd einaȯn uab anaraȯt. *brabt* yr arglȯy*d* rys. Jeuanc o oet a gȯraȯl onerth. Ac oachaȯs gȯelet o * honaȯ bot Rys y ewythyr yn ryd or amot ac o bop llȯ or arodaſſei yr brenhin. Ac o achaȯs y uot ynteu yn doluryaȯ kyvarſagedigaeth y briaȯt genedyl gan dȯyll ygelynyon. Ȳna ykyrchaȯd am benn caſtell hȯmfre. ac y lladaȯd y marchogyō dewraf acheitweit y caſtell ogȯbyl. Ac | duc holl anreith ycaſtell ae holl yſpeil oll gantaȯ. Ac yna pan welas rys uab gruffud na allei ef gadȯ dim gantaȯ or arodaſſei y brenhin idaȯ namyn yr hyn aennillei oe arueu. kyrchu awnaeth am benn y ceſtyll. adareſtygaſſei y Jeirll ar barȯneit yg keredigyaȯn aellofgi. A gȯedy clybot or brenhin hynny kyrchu deheubarth aȯnaeth allu gantaȯ. A gȯedy mynych ȯrthȯynebu orys ae wyr idaȯ ymchoelut awnaeth y loegyr. Ac odyno yd aeth drȯy ymor. Ȳulȯydyn rac ȯyneb ydareſtygaȯd yr arglȯyd rys uab gruffud y ceſtyll awnathoed y freinc ardraȯs dyfet ac y llofgeſ. Ȳgkyfrȯg hynny yd arwedaȯd ylu y gaer vyrdin ac ymladaȯd ac ef. Ac yna ydoeth reinalt uab henri urenhin yny erbyn a chyt ac ef dirua ȯr luoſſogrȯyd o freinc a normanyeit aflemiſſeit a ſaefon a chymry. Ac adaȯ aorȧuc rys y caſtell achynullaȯ y wyr ygyt hyt ym mynyd kefyn reſtyr. Ac yno y pebyllyaȯd ygkaſtell dinȯileir. Reinalt iarll bruſtei a Jarll clar adeu Jeirll ereill. achatwaladyr. uab gruffud. a hoȯel achynan veibon owein gȯyned. adirua ȯr lu o uarchogyon a phedyt gyt ac ȯynt. a heb ueidaȯ kyrchu y lle ydoed Rys. ymchoelut adref awnaethant ynllaȯ ſegur Odyna

kynnic kygreir yrys aorugāt ac ynteu ae kymerth. Achenattau y wyr aonaet[h] ymchoelut y golat. Y uloydyn rac oyneb y bu uaro madaoc uab maredud argloyd powys ygor aoed diruao[2] y uolyanrwyd. yr honn affuruaod duo ogymeredic tegoch. ac aekyflanwaod o anhybygedic hyder. ac ae hadurnaod oleoder amolyāroyd. vfud a hegar * a hael orth y tlodyon. Huaodyr orth vfudyon. Garo ac ymladgar orth yalon. Goedy goneuthur iachoyaol benyt. a chymryt kymmyn corff crist. ac oleo. ac aghenn ac ymeiuot yny lle ydoed y oylua ynegloys tissiliao sant ycladoyt yn enrydedus. Ny bu uaor goedy hynny yny las llyoelyn yuab. y gor aoed unic obeith y holl wyr powys. Ac yna y delis cadwallaon uab madaoc uab Idnerth Einaon clut y uraot ac ydanuones yg karchar owein goyned. Ac owein aerodes yrffreinc. athroy y gedymdeithon y diegis hyt nos o wicco yn ryd.

Trugein mlyned achant amil oed oet crist. pan uu uaro agharat gorreic ruffud uab kynan. Yuloydyn honno y bu uaro Meuruc escob bangor. Yuloydyn honno y gorreskynnaod Howel uab Ieuaf odoyll gastell daualwern ygkeueilaoc. Ac oachaos hynny y syrthaod owein goyned ygkymeint o dolur ac naallei nathegoch teyrnas. na dinan[d]och neb ryo dim arall y arafhau naedynnu oegymeredic lit. Ac eissoes kyt kyrchei anniodeuedic driftit uedol owein. deissyfyt lewenyd orracweledigaeth duo ae kyfodes. Kanys yr un ryo owein agyffroes vn ryo lu y aroystli hyt ynllan dinan. A goedy kaffel diruaor anreith onadunt. ymgynnullao aorruc goyr aroystli amgylch trychanor ygyt ahowel uab Ieuaf y hargloyd y ymlit yr anreith. Aphan welas owein y elynyon yndyuot yn deissyfyt. Annoc y wyr y ymlad aorruc.

1159–60.

ar gelynyon aymchoelaſſant arffo gan y llad o owein ae wyr yny vu vreid ydiegis y traean adref ar ffo. Aphan gyflenȣis y llewenyd hȣnnȣ vedȣl owein. yna ydymchoelaȣd ar y gyſſevin anſaȣd wedy yrydhau oe gymeredic driſtit. ac atgyweiraȣ y caſtell aorȣc. Y ulȣydyn rac ȣyneb y dygȣydaȣd kaer offa ygan owein. ab gruffud. ab owein. ab madaȣc. a Maredud uab howel. Y ulȣydyn honno y kyffroes henri vrenhin lloegyr lu yn erbyn deheubarth. Ac ydoeth hyt ympenn cadeir. Agȣedy rodi gȣyſtlon orys i*daȣ. ymchoelut y loegyr awnaeth. Ac yna yllas einaȣn uab anaraȣt yny gȣſc ygan wallter ab llywarch y gr ehun. ac y llas cadwgaȣn ab maredud y gan wallter uab ridit. Ac yna y cymerth rys ab gruffud ykantref maȣr achaſtell dineſȣr. Y ulȣydȳ honno ybu uarȣ kediuor uab daniel archdiagon keredigyaȣn. Ac yna y bu uarȣ henri ab arthen. gorȣuchel athro argyffredin yr holl yſcolheigon. Y ulȣydyn rac ȣyneb gȣedy gȣelet orys abgruff"d nat yttoed y brenhin ynkywiraȣ dim ȣrthaȣ or aadaȣſſei. ac na allei ynteu uuduchockau ynaduȣyn kyrchu awnaeth ynwraȣl ambeñ kyſoeth roſſer Jarll clar y gȣr y lladyſſit Einaȣn uab anaraȣt y nei oeachaȣs. athorri caſtell aber reidaȣl. a chaſtell mab|wynyaȣn. ae llofti. ac atorefgynn holl geredigyaȣn. amynychu lladuaeu allofcuaeu ar yfflemiſſe. a dȣyn mynych anreitheu y gantunt. Agȣedy hynny ydymaruolles yr holl gymry ar ymȣrthlad a cheitweit y ffreinc ahynny yn gyfun. ygyt. Y ulȣydyn rac ȣyneb y diffeithaȣd dauyd uab owein gȣyned tegigyl. Ac ymudaȣd ydynyon ae hanifeileit y gyt ac ef hyt yn dyffryn clȣyt. Agȣedy tebygu or brenhī y bydei ymlad ar ycaſtell aoed ynthegygyl. kyffroi llu aorȣc drȣy diruaȣr vrys adyuot hyt ynrudlan aphebyllu yno deirnos. A gȣedy hynny ymchoelut y loegyr achyn-

nullaȣ diruaȣr lu y gyt ac ef adetholedigyon ymladwyr lloegyr anormādi afflandrys ac angiȣ agȣafgȣin aholl brydein a dyuot hyt ygroes oſwallt gan darparu allttudaȣ adifetha⁶ yr holl vrytanyeit. Ac yny erbyn ynteu y deuth owein gȣyned. achatwaladyr ueibon gruff"d ab kynan aholl lu gȣyned y gyt ac ȣynt. Ar arglȣyd rys ab gruffud aholl deheubarth ygyt ac ef. ac Owein keveilaȣc a Jorwoerth goch uab Mared"d a meibon madaȣc uab maredud. aholl powys y gyt ac ȣynt. adeuuab madaȣc uab Jdnerth aeholl gyfoeth y gyt ac ef. Ac ygyt yngyfun diergrynedic y doeth*ant hyt yneideirnaȣn. A phebyllu awnaethant yghorruaen. Agȣedy trigyaȣ ynhir yny pebylleu yno. heb arueidaȣ o vn gyrchu att y gilyd y ymlad. Didiaȣ aorruc y brenhin yndiruaȣr. achyffroi y lu hyt yghoet dyffryn keiriaȣc. A pheri torri ykoet ae vȣrȣ yr llaȣr. Ac yno ydymerbynyaȣd ac ef ynȣraȣl ychydic o gymry etholedigyon. yrei nywydynt odef ygorruot ynaȣſen y tywyſſogyon. Allawer or rei kadarnaf adygȣydaȣd o bop tu. Ac yna ypebyllyaȣd y brenhin arbydinoed ygyt ac ef. Agȣedy trigyaȣ yno ychydic odydyeu. y kyvarſagȣyt ef odiruaȣr dymheſtyl awyr. athrallifeireint glaȣogyd. Agȣedy pallu ymborth idaȣ ydymchoelaȣd y bebylleu aelu y vaeſtir lloegyr. Ac yn gyflaȣn odiruaȣr lit y peris dallu y gȣyſtlon avuaſſei ygkarchar gantaȣ. yr yſtalym oamſer kyn no hynny. Nyt amgen deu uab owein gȣyned kadwallaȣn achynwric. Amaredud uab yr arglȣyd rys ar rei ereill. A gȣedy kymryt kyghor y ſymudaȣd y lu hyt ygkaer leon. ac yno pebyllyaȣ aorruc laȣer o dydyeu yny doeth llogeu odulyn ac ordinaſſoed ereill o Jwerdon attaȣ. Agwedy nat oed digaȣn gantaȣ hynny o logeu rodi rodyon aorruc y logeu dulyn ae gellȣg drachefyn. ac ynteu ae lu aymchoel-

1164.

aȣd y loeger. Ȳ ulȣydyn honno ykyrchaȣd yr arglȣyd rys kaer aber teiui. ae chaſtell ac y tores. ac y llofges. adiruaȣr anreith aduc. Ac achub caſtell kil gerran aorȣc. adala robert yſtefyn aegarcharu. Ȳ ulȣydyn honno drȣy gennat duȣ ac annoc yr yſprȣyt glan y doeth koueint o vyneich y yſtrat fflur. Ac yna ybu uarȣ llywelyn uab owein gȣyned. y gȣr a ragorȣes mod paȣb odeȣred a doethineb. ar doethineb o ymadraȣd. ar ymadraȣd o voeſſeu. Ȳ ulȣydyn rac ȣyneb y doeth ffreinc o benuro ar fflemiſſeit y ymlad yn gadarn achaſtell kil gerran. A gȣedy llad llawer oe gȣyr ydymchoelaſſant adref yn llaȣ|wac. Ac eilweith ydymladaſſant achil gerran yn over heb gaffel y caſtell. Ȳ * vlȣydyn honno y diſtrywyt dinas baſin ygan owein gȣyned. Ȳ ulȣydyn honno y gȣrtladȣyt diermit uab mȣrchath oe genedyl ac ydaeth hyt yn normandi at vrenhin loeger. y erfynneit idaȣ ydodi yny gyuoeth drachefyn wedy kȣynaȣ ȣrthaȣ Ac yny vlȣydyn honno y gȣrthladȣyt Jorȣoerth goch uab Maredud oe genedyl ac oegyfoeth ym mochnant. y gan ydeu owein. Ar deu owein hynny arannaſſant uochnant yrygtunt. ac ydeuth mochnāt vch raeadyr y owein keueilaȣc. A Mochnant is raeadyr y owein vychan. Ȳ vlȣydyn rac wyneb y kyfunaȣd owein a meibon gruffud ab kynan o wyned. arys ab gruffud ab rys o deheubarth ynerbyn owein kefeilaȣc. Ac ydugant y gantaȣ gaer Einaȣn. ac yrodaſſant y owein vychan uab Madaȣc uab Maredud. Odyna ydenllaſſant davalwern. a honno arodet yr arglȣyd rys. Kanys oe gyfoeth y dywetit y hanfot. Ny bu uaȣr wedy hynny yny doeth owein keueilaȣc allu or ffreinc ygyt ac ef. am benn caſtell kaer einaȣn yr hȣn aȣnathoed kymry kyn no hynny. A gȣedy ennill y caſtell y dorri aȣnaethant ae loſgi a llad yr holl gaſtellwyr.

1165–6.

Yndiϑed y ulϑydyn honno y kyrchaϑd owein. achatwaladyr tywyſſogyon gϑyned. ar arglϑyd rys tywyſſaϑc odeheubarth ae Huoed y gyt ac ϑynt ambenn caſtell rudlan yntegeigyl. Ac eiſted ϑrthaϑ trimis aorugant. Agϑedy hỹny cael y caſtell. ae dorri ae loſgi. a chaſtell arall ygyt ac ef. yr molyant y gymry yn hyfryt uudugaϑl paϑb yϑ gϑlat. Yulϑydyn rac wyneb y Has gϑrgeneu abat. allaϑden y nei. y gan gynan. ac owein. Yulϑydynn rac ϑyneb y rydhaϑyt robert uab yſtefyn ogarchar yr arglϑyd rys y gyveilt. Ac y duc diermit uab Mϑrchath ef hyt yn Iwerdon gyt ac ef. Ac yr tir y doethant y lϑch garmon. Ac ennill y kaſtell awnaethant Yulϑydyn rac ϑyneb y Has meuruc uab adam. drϑy dϑyll yny gϑſc. y gan uaredud bengoch y gefynderϑ. Yndiwed y ulϑydyn * honno mis tachϑed. y bu uarϑ owein gϑyned uab gruffud ab kynan tywyſſaϑc gϑyned. gϑr diruaϑr y uolyant. ac anuedraϑl y brudder ae uoned. ae gedernit. ae dewred ygkymry. wedy anneiryf uudugolyaetheu. heb omed neb eiryoet or arch ageiſſei. wedy kymryt penyt a chyffes ac eidiuarϑch achymun rinwedeu corff criſt. ac oleϑ. ac aghenn....

Deg mlyned athrugein achant amil oed oet criſt. pan ladaϑd dauyd ab owein. Howel uab owein ybraϑt hynaf idaϑ. Yvlϑydyn rac ϑyneb y Has thomas archeſcob gϑr maϑr y grefyd. aeſanteidrϑyd. aegyfyaϑnder. ae gyghor ac annoc Henri urenhin Noegyr. y pumhet dyd gϑedy duϑ nadolic ger bronn allaϑr y drindaϑt yny gapel ehun yg|gkeint. ae eſcobaϑl ϑiſc ymdanaϑ. a delϑ y groc yny laϑ y Has ardiϑed y efferen. Y ny vlϑydyn honno y mordϑyaϑd rickart iarll triſtig. uab gilbert vϑa kadarn. achadarn uarchaϑc|lu gyt ac ef y Iwerdon. Ac yn ykyrch kyntaf y kymerth porth Lachi. Agϑedy gϑneuthur

1166–71.

kyveillach adiermit vrenhin. ac erchi y verch yn briaȣt. Ac onerth hȣnnȣ y kauaſ dinaſ dulyn drȣy wneuthur diruaȣr aerua. Ac yny vlȣydyn honno y bu uarȣ ropert uab Llyȣarch. Ac ybu uarȣ diermit vrenhin largines. ac ycladȣyt ynydinas aelȣit fferna. Ac yny vlȣydyn honno y magȣyt teruyſc yrȣg brenhin Loegyr a brenhī ffreinc. amlad yr archeſcob. Kanys brēhin Loegyr arodaſſei ynveicheu y vrenhin freinc. Henri tywyſſaȣc bȣrgȣin. A thybaȣt Jeuanc y vraȣt. Meibon oed yrei hynny yr tibaȣt tywyſſaȣc bȣrgȣin. A iarll fflandrys allaȣer orei ereill. pan wnaeth kymot ararcheſcob hyt nawnaei argyȣed idaȣ byth. A gȣedy clybot o alexander bap rylad yr archeſcob. anuon llythyreu at urenhin freinc aȣnaeth. ac at y meicheu ereill. A gorchymun udunt drȣy * yſgymundaȣt. Kymell brenhin Loegyr ydyuot y lys rufein y wneuthur iaȣn amageu yr archeſcob. Ac ȣrth hynny anneſmȣythaȣ aȣnaethant o bop *aru*aeth ar ytremygu ef. Aphanwelas henri vrenhin hynny. dechreu gȣadu aorȣuc hyt nat oe gyghor ef yllas yr archeſcob Ac anuon kenadeu aȣnaeth at y pab. y venegi naallei ef vynet y rufein drȣy yr achȣyſſon hynny. Ygkyfrȣg hynny y kilyaȣd ran uaȣr or ulȣydyn. A thra yttoedit yn hynny tu draȣ yr mor. y kynullaȣd yr arglȣyd Rys uab gruffud lu ambenn owein keueilaȣc y daȣ. ar vedyr y dareſtȣg. Kanys ygenifer gȣeith ygallei owein gȣrthȣynebu yr arglȣyd Rys y gȣrthȣnebei. A rys ae kymhellaȣd y dareſtȣg idaȣ. Ac y kymerth ſeith ȣyſtyl gantaȣ. Ygkyfrȣg hynny ofynhav aȣnaeth y brenhin yr eboſtolaȣl yſkymyndaȣt. ac adaȣ gȣladoed freinc ymchoelut yloegyr. a dywedut y mynnei uynet y dareſtȣg iwerdon. Ac ȣrth hynny ymgynullaȣ aorȣuc ataȣ holl dyȣyſſogyon Loegyr a chymry. Ac yna ydeuth attaȣ yr arglȣyd rys. or

1171.

Ne ydoed yn Nwyn danet amgylch y róyl yganet yr arglóydes veir. Ac ym gyfeiNaó awnaeth arbrenhin dróy adaó drychan meirch. a phedeir mil o ychen. aphetóargóyſtyl arhugeint. A góedy hýny y deneſſaaód y brenhin y deheubarth Ac ynyr hynt honno ar auon óyſc yduc gantaó. Jorwoerth uab owein uab cradaóc uab gruf"d. Ac oachaós hynny y diſtrywaód Jorwoerth ae deu uab oóein a howel. a anyſſit idaó o agharat uerch uchtrut eſcob Nan daf. a morgā uab ſeiſyN uab dyſynwal. o agharat uerch owein. chóaer Jorwoerth uab oóein. gyt aNawer o rei ereiN dref gaer Nion ac yNoſget hyt y caſteN. ac y diffeithaód y wlat hayach ogóbyl. Ac yna ydeuth y brenhin a diruaór lu gātaó hyt ympenuro. yr vnvet dyd ar dec o galan hydref. ac y rodes yr arglóyd rys geredigyaón ac yſtrat tyói ac yſtlóyf ac euelfre. Ac ynyr haf hónnó ydadeilaſſei yr arglóyd rys gaſteN aber teiui o vein a morter yr hónn adiſtryóaſſei kyn no hynny pan y duc y ar JarN clar. ac y dilaód robert uab yſtefyn. o neſt uerch rys ab teódór. Ar neſt honno aoed vodrup y rys. A robert yngefynderó idaó. A brodyr robert oed dauyd eſcob mynyó. a góilim baſtard. Weibon oed yrei hynny y erald yſtiwert Ac yna ydaeth rys o gaſteN aber teiui hyt yggaſteN penvro yymdidan ar brenhin. y deudecuet dyd ogalan hydref. aduó ſadórn oed y dyd hónnó. Ac yd erchis rys gynuNaó y meirch oN aadaóſſei yr brenhin y aber teifi ual y beynt baraót órth euhanuon yr brenhin. A thrannoeth duó ſul yd ymchoeles rys ac ethol aónaeth whemeirch aphetwar ugeint órth euhanuon drannoeth yr brenhin. A góedy dyuot hyt y ty góynn clybot aónaeth ryvynet y brenhin y vynyó y bererinaó ac offrymaó aónaeth y brenhin ym mynyó deu gappann cor o bali ar vedyr cantor-

1172.

yeit y waſſanaethu duo. Ac offrymao hefyt aonaeth decſollt. Ac ervynneit aorruc dauyd uab gerald y gor aoed eſcob ymmynyo yna. Yr brenhin boytta ygyt ac ef y dyd honno. A gorthot y goahaod aorruc y brenhin. o achaos goeglyt gormod dreul yr eſcob. Dyuot eiſſoes aorruc ef ar eſcob athrychanor gyt ac oynt y ginaoa. A rickert iarll gor aoed o ioerdon y ymgyfeillao ar brenhin Kanys o anuod y brenhin ydathoed o ioerdon. A llaoer orei ereill aginaoſſant oc euſeuyll. Ac ynebroyd goedy kinyao ydyſgynnaod y brenhin ar y veirch. Glao maor oed yny dyd honno aduo goyl vihagel oed. Ac yna ydymchoelaod y benuro. Aphan gigleu rys hynny anuon y meirch yrbrenhin aorruc. Agoedy doyn ymeirch rac bronn y brenhin. kymryt aonaeth vn * ar bymthec ar hugeint aetholes. Adywedut nat y bot ynreit idao orthunt y kymeraſſei oynt. Namyn yr talu dioloch yrys avei voy no chynt. Agoedy regi bod uellỳ ỳr brenhin. dyuot aorruc rys att y brenhin. a chael daon aonaeth gyr bron y brenhin. a rydhau aorruc y brēhin idao howel y uab. avuaſſei gantao yggoyſtyl ynhir kyn no hynny. arodi oet aorruc y brenhin idao am ygoyſtlon ereill. adylyei rys y dalu yr brenhin. Ac am y dreth adywetpoyt ury yny delei y brenhī o Iwerdon. Parattoi llyges aonaethboyt. ac nyt oed adas y goynt udunt. kanys amſer nyolaoc oed. a breid y keit yna yt aeduet yn vn lle ygkymry. A goedy dyuot galixtus bap. Erchi aonaeth y brenhin gyrru y llogeu or borthua yr mor. Ar dyd honno yſgynnu y llogeu aorugant. Ac etto nyt oed gymoynaſſgar y goynt udunt. Ac achaos hynny ymchoelut aonaeth drachefyn yr tir. ac ychydic onifer ygyt ac ef. Ar nos gyntaf wedy hynny ydyſkynnaod y logeu. gan oylao o honao ef ehun ac obaop oe wyr.

1172.

Athrannoeth duo ful oed yr vnuet dyd ar bymthec ogalan racuyr dróy hyrróyd awel wynt ydyblygaód y logeu y dir Iwerdon. Y ulóydyn rac óyneb y bu diruaór uaróolyaeth ar y Nu aoed y gyt ar brenhin yn iwerdon o achaós newyd|der y diargrynedigyon wynoed. ac oachaós kyfygdór o newyn. Amnaallei y Nogeu a newidyeu yndunt vordóyaó attunt ygayaf. dróy y dymheftlaól gandared mor ióerdon. Y ulóydyn honno y bu uaró katwaladyr ab gruf^ud ab kynan vis maórth. Ac yny vlóydy honno ydymchoelaód brenhin Noegyr o Iwerdon. Gan adaó yno uaróneit a marchogyon urdolyon drostaó o achaós y kenadeu a dathoed attaó y gan y pab a lowys urenhin ffreinc A duó góener y croclith y doeth ympenuro. Ac yno y trigyaód y pasc. * hónnó. A duó Nun pasc ydymdidanaód arys yntalacharn ar y fford. Ac odyno ydaeth y loeger. A góedy mynet y brenhin o gaer dyf hyt y castell newyd aróysc. Anuon awnaeth y erchi y Jorwoerth uab owein dyuot y ymwelet ac ef. ac y ymdidan amhedóch. A rodi cadarn gygreir aoruc idaó ac oeveibon. A phan yttoed owein uab Jorwoerth góas Jeuanc grymus hegar yn ymparattoi o gyghor ydat aewyrda y vynet y gyt aedat y lys y brenhin. y kyfaruu ór Jarll bristaó ac ef ar y fford yndyuot o gaer dyf ac y Nadyssant. A góedy y lad ef yna y diffeithaód y dat a howel yvraót. a Naóer orei ereill heb ymdiret or achaós hónnó yrbrenhin o neb un mod kyuoeth ybrenhin hyt yn henfford achaer loyó dróy lad aNosgi ac anreithaó heb drugared. Ac yna heb odric ydaeth ybrenhin y ffreinc wedy gossot yrarglóyd rys yn Justus yn holl deheubarth. Ygkyfróg hynny ydelit seisyll ab dyfynwal. a Jeuan uab dyfynwal a ridit dróy dóyll ygan wyr y brenhin. ac ycarcharóyt ygcastell aber gefenni. Y

1172.

ulwydyn rac ỏyneb y bu diruaỏr ardymer ar hinda arhyt y gayaf ar gỏannỏyn amis mei hyt duỏ Jeu kychavel. Ar dyd hỏnnỏ ykyuodes diruaỏr dymyſtyl ynyraỏyr odaraneu amyllt achorwynt. achawadeu kenllyſc. aglaỏ. yrei adorres keigeu y gỏyd. ac a vyryaỏd y coedyd hyt y llaỏr. aryỏ bryſet adoeth y ulỏydyn honno y yſſu deil y gỏyd. yny diffrỏythaỏd hayach pob ryỏ prenn. Y vlỏydyn honno arulỏydyn kyn no hi y collet liaỏs ordynyon ar anniueileit ac nyt heb achaỏs. Kanys yny ulỏydyn honno y ganet mab yrarglỏyd rys o uerch uaredud uab gruffud y nith verch y uraỏt. Ygkyfrỏg hynny pan yttoed henri urenhin hynaf y tu draỏ yr mor ydeuth y uab henri Jeuaf urenhin neỏyd attaỏ. yofyn idaỏ beth adylyei ywneuthur. Kanys kyt bei urenhin ef. llaỏer oed idaỏ o uarchogyon. ac nyt oed gantaỏ ford y dalu kyuarỏſſeu arodyon yr mar*chogyon o nyſ kymerei ynechỏyn y gan y dat. Ar amſer hỏnnỏ oed raỏys. Ae dat adywaỏt ỏrthaỏ y rodei idaỏ ugein punt o vỏnei y wlat honno beunyd yndreul ac na chaffei mỏy. Ac ynteu adywaỏt na chlyỏſſei ef eiryoet bot brenhin yn ỏr pae ac nabydei ynteu. A gỏedy kymryt or mab gygor ef aaeth y dinas tỏrs y geiſſaỏ aryant echỏyn y gan vỏrdeiſſeit ydinas. Aphan gigleu y brenhin hynny. anuon kenadeu aorruc y brenhin at y bỏrdeiſſeit. y wahard udunt dan boen y holl da. nat echwynynt dim oe uab ef. Aheb ohir anuon aorruc wyrda y warchadỏ y uab rac y uynet o dyno yndirybud y un lle. A gỏedy adnabot or mab hynny. peri aorruc medwi noſſweith y gỏercheitweit aoed arnaỏ olys ybrenhin. Agỏedy eu hadaỏ yn vedwon yn kyſgu. Dianc aỏnaeth ac ychydic onifer ygyt ac ef hyt ynllys brenhin ffreinc y whegrỏn. Ygkyfrỏg hynny ydanuones howel y uab hyt att yr hen vrenhin

1173.

tu draw yr mor ar vedyr trigyaw yny llys agwassanaethu ar ybrēhin ahaedu y gedymdeithas o bei vyw. Ac ual y gallei y brenhin ymdiret y rys o bei uyw. arbrenhin aaruolles ymab ynenrydedus. Adiruawr diolch awnaeth yrys. Ac yna aflonydu aorruc y brenhin Jeuanc ar gyuoeth y dat drwy nerth y whegrwn. athybawt Jarll bwrgwyn. a iarll fflandrys. A thra vyd ybrenhin yn ymryssion uelly tu drawr yr mor. y dechreuawd Jorwoerth uab owein o gwynllwg ymlad achaer llion. y pymthecuet dyd o galan awst duw merchyr. Ac aostygawd ydreis oe rym ae nerth. Duw sadwrn wedy hynny. gwedy dala duw gwener y dyd kyn nohynny y gwyr aoed yn kadw ybaeli. a throstunt wynteu drannoeth y rodet y castell. Agwedy hynny yr eilweith. yr eildyd ovis medi. y kyrchawd howel uab Jorwoerth went is coet. A thrannoeth duw gwener ydarestygawd yrholl wlat eithyr y castell. ac ykymerth wystlon o vchelwyr ywlat. Y ulwydyn honno y gorreskynnawd dauyd uab owein gwyned idaw ehun. ynys von gwedy dehol ohonaw uaelgwn uab owein y vrawt. * hyt yn Jwerdon. Y ulwydyn rac wyneb y gorreskynnawd dauyd uab owein holl wyned gwedy gwrthlad o honaw y holl vrodyr aeholl ewythred. Ylulwydyn honno y delis ~~ydelis~~ dauyd uab owein vaèlgwn yvrawt ac y karcharawd. Yny vlwydyn honno y bu uarw kynan uab owein gwyned. Yny ulwydyn gwedy hynny y delis howel ab Jorwoerth ogaer llion heb wybot oe dat owein penn carwn y ewythyr. A gwedy tynnu ylygeit oe benn yperis y yspadu rac meithrynetifed ohonaw awledychei gaer llion. Ac y gyrraffant ymeith odyno Jorwoerth a howel y vab. Yny ulwydyn honno y hedychawd henri vrenhin hynaf a henri ieuaf. Gwedy diruaw[2] diftrywedigaeth normandi ae chyfneffafyeit wledyd. Ac yna ydelis dauyd uab

1173–5.

owein dróy dóyll Rodri uab owein yuraót un uam un dat ac ef. ac ycarcharaód myón gefynneu. amgeiffaó kyfran odref ydat gantaó. Ac yna y priodes y dauyd hónnó dam ein chwaer y vrenhin Lloeger. dróy debygu gallel o honaó kael y gyuoeth yn llonyd hedychaól or achaós hónnó. Ac yna ydiegis Rodri o garchar dauyd y vraót. Achyn diwed y ulóydyn ygórthladaód ef dauyd o von ac oóyned. yny doeth dróy avon gonóy. Ac yna ydymbarattoes yr arglóyd rys ab gruffud órth uynet y lys ybrenhin hyt ygkaer loyó. Ac yduc ygyt ac ef dróy gygor y brenhī holl dywyffogyon y deheu a uueffynt yggórthóyneb yr brenhin. Dyt amgen Katóallaón uab madaóc o Vaelenyd ygefynderó. ac Einaón clut o eluael ydaó gan yuerch. ac Einaón uab rys o werthrynyon y daó y llall. a Morgan ab cradaóc ab Jeftyn o wlat vorgan. owlad^us ychóaer. a Jorwoerth uab oóein ogaer llion. a Seiffyll uab dyfynwal o went uch coet. Ygór aoed yna yn briaót agóladus chóaer yr arglóyd rys. Hynny oll o dywyffogyon aymchoelaffant yó góladoed yn hedychaól gyt ar arglóyd rys y gór aoed * garedickaf gyfeillt gan y brenhin ynyramfer hónnó. dróy ymchoelut kaer llion drachefyn y Jorwoerth abowein. Ynylle wedy hynny y llaf feiffyll uab dyffynwal dróy dóyll arglóyd brecheinaóc achyt ac ef ruffud y uab allawer obennaduryeit góent. Ac yna y kyrchaód y ffreinc lys Seiffyll uab dyfynwal. Agóedy dala góladus ywreic y lladyffant gadóaladyr yuab. Ar dyd hónnó y bu y druanaf aerua ar wyrda góent. Agóedy ygyhoedicka danllyóychedic dóyll honno ny beidaód neb or kymry ymdiret yr ffreinc. Ac yna ybu uaró Cadell uab gruffud. dróy orthróm glefyt. Ac ycladóyt yn yftrat fflur wedy kymryt abit ycrefyd ymdanaó. Ac yna yllas rickert abat clerynaót myón

1175.

manachlaȣc ynymyl remys ygan neb vn anfydlaȣn uynach o vraath kyllell. Ȳ ulȣydyn rac ȣyneb ybu uarȣ kynan abat y ty gȣynn. a dauyd efcob mynyȣ. Ac yny ol y deneffaaȣd pyrs ynefcob. Ac yna y kynhalyaȣd yr arglȣyd rys wled arbennic yg | caftell aber teiui. Ac ygoffodes deu ryȣ amryffon. Vn rȣg y beird ar prydydyon ar llall rȣg telynoryon achrythoryon aphibydyon. ac amryuaelon gerd arweft Adȣy gadeir aoffodes y vudugolyon yr amryffoneu. ar rei hynny agyfoethoges ef o diruaȣryon rodyon. Ac yna y cauaf gȣas Jeuanc oe lys ef ehunan y uudugolyaeth o gerd arweft. Agȣyr gȣyned agauaf yuudugolyaeth o gerd dauaȣt. a phaȣb or kerdorryon ereill agaȣffant ygan yr arglȣyd rys. kymeint ac aarchyffant hyt na ȣrthladȣyt neb. Ar wled hōno agyhoedet vlȣydyn kynn y gȣneuthur. arhyt kymry allloegyr aphrydein ac Jȣerdon a llaȣer o wladoed ereill. Ȳny vlȣydyn honno yny graȣys ydymgynullaȣd kyghor hyt yn llundein ȣrth gadarnhau kyfreitheu yr eglȣyffeu yno geir bronn kardinal orufein a dathoed yno ȣrth y neges honno. A gȣedy meithryn kynnȣryf y rȣg archefcob | keint | ac archefcob Jorc y teruyfgȣyt y kyghor * Kanys ydyd kyntaf orkygor yd achubaffei archefcob Jorc eiftedua y gadeir ortu deheu yr cardinàl. yny lle ydylyei ac y gnottaei archefcob keint eifted. Athrannoeth pan doethant ger bronn ycardinal. wedy amryffon yggȣyd yr holl lys am yteilygdodeu. ydeuth yrei ortu drachafyn y archefcob Jorc acydymchoelaffant y gadeir yny vyd gȣegil yr archefcob yr llaȣr ar gadeir ar yvchaf. ac ȣynteu ar y draȣs ef gan yfathru ae traet. ae ffuftaȣ aedyrneu Abreid ydieghis yr archefcob ynvyȣ odyno. Ȳ ulȣydyn rac ȣyneb y llas Kinaȣn clut. Ac yllas Morgan uab maredud. Ac yna ydadeilaȣd yr arglȣyd

1176–7.

rys gaſtell rayadyr gŏy. Ỳ ulŏydyn rac ŏyneb y ryfelaŏd meibon kynan ynerbyn yrarglŏyd ryſ. Ac yna yllas kadwallaŏn. ac ydechreuŏyt coueint ymanachlaŏc gaer llion. yr honn aelŏir deinna.

Pedwar ugein mlyned achant amil oed oet criſt. panuu varŏ alexander bap. ac ynyol ynteu y doeth yn bap Lucius. ac yna ybu uarŏ adaf eſcob llan elyŏ yn ryt ychen. ac y cladŏyt ymyŏn manachlaŏc oſnei. Ỳ ulŏydyn rac ŏyneb y llas randŏlff depoyr. allawer o varchogyon y gyt ac ef y gan Jeuengtit kaer wynt. Ỳ ulŏydyn rac ŏyneb y bu uarŏ henri Jeuaf urenhin lloegyr. ac ybu uarŏ rickert archeſcob keint. Ỳ ulŏydyn rac ŏyneb y bu uarŏ ryderch abat y ty gŏyn. a Qeuruc abat y cwm hir. Ỳ ulŏydyn rac ŏyneb amgylch y garaŏys ydoeth padriarch caeruſſalem hyt ynlloegyr yeruynneit nerth y gā y brenhī rac diſtryŏ or Jdeŏon arſaraſſinyeit holl gaeruſſalem. Achyt ac amylder o varchogyon aphedyt ydymchoelaŏd drachefyn y gaeruſſalem. Ỳny ulŏydyn hoño duŏ calan mei y ſymudaŏd yr heul y lliŏ. ac ydywaŏt rei uot erni diffyc. Ỳ vlŏydyn honno ybu uarŏ dauyd abat * yſtrat fflur. Ac y bu uarŏ howel uab ieuaf arglŏyd arŏyſtli. ac ycladŏyt yn enrydedus ynyſtrat flur. ac yna y bu uarŏ einaŏn uab kynan. Ỳ ulŏydyn rac ŏyneb ybu uarŏ Lucius bap. Ac yny le ydurdŏyt y trydyd vrbanus yn bap. Ỳnyulŏydyn honno amgylch mis gorffenna. ydaeth cofeint yſtrat flur y redynaŏc velen yggŏyned Ac yna y bu uarŏ pedyr abat yn dyffryn clŏyt. Ac yna y llas katwaladyr uab rys yn dyfet. Ac y cladŏyt yny ty gŏynn. Ỳnyulŏydyn honno ybu uarŏ Jthel abat yſtrat marchell. Ac yna y llas owein uab madaŏc gŏr maŏr y uolyant. kanys cadarn oed athec. acharedic. a hael. ac adurn o

1178–86.

uoeſſeu da. ygan deu uab owein kyveilaȣc. Nyt amgen gȣenȣynȣn achatwallaȣn. a hynny drȣy noſſaȣl urat athȣyll Ac yna ydelit llyȣelyn uab catwallaȣn yn enwir y gan y vrodyr. ac ytynnȣyt ylygeit ȣbenn. Ac yna ydiffeithaȣd. ac y llofges Maelgȣn uab rys dinbych. ygȣr aoed daryan achedernit yr holl deheu kanys egluraf oed y glot athec acharedic oed gan baȣp. kyt bei kymhedraȣl yuein'. garȣ ȣrth y elynyon. hegar ȣrth ygedymdeithon. paraȣt y rodyon. Budugaȣl yn ryuel. ar holl tyȣyſſogyon kyt|amhinogyon ac ef ae hergrynynt. Kyffelyb y leȣ yny weithredoed. ac megys keneu lleȣ aruthur yny helua. ygȣr aladaȣd llaȣer orflandrafwyr ac ae gyraȣd ar ffo. Y ulȣydyn rac ȣyneb y |doeth y| ſaraſſinyeit ar ideȣon y gaeruſſalem gan dȣyn y groc gantunt duȣ merchyr y lludȣ agorefgyn kaeruſſalem. a chymeint ac agaȣſſant o griſtonogyon yndi llad rei aȣnaethant adȣyn ereill ygkeithiwet. Ac oachaȣs hynny y kymerth phylip vrenhin ffreinc. A henri urenhī loegyr. ac archeſcob keint ac anneiryf oluoſſogrȣyd criſtonogyon. ac arȣydon croes criſt arnunt. Y ulȣydyn rac ȣyneb y bu uarȣ henri. vrenhin. ac yny ol ynteu y corȣonet Rickert y uab ynvrenhin. y marchaȣc* gorȣeu agleȣaf. Y ulȣydyn honno y gorefgynnaȣd yr arglȣyd rys gaſtell ſeint cler. ac aber corȣan allan yſtyffan. Y ny ulȣydyn honno y delit Maelgȣn uab rys ygan y dat drȣy gyghor rys y uraȣt ac ycarcharȣyt.

Dlg mlyned aphetwar ugein achant amil oed oet criſt pan aeth phylip vrenhin ffreinc. a rickert vrenhin loegyr. ac archeſcob keint. A diruaȣr luoſſogrȣyd oieirll abarȣneit y gyt ac ȣynt y gaeruſſalē Y ny ulȣydyn honno ydadeilaȣd yrarglȣyd rys gaſtell ketweli. Ac y bu uarȣ gȣenllian uerch rys vlodeu athegȣch holl gymry Y ulȣydyn rac ȣyneb

1186–90.

y bu uarȣ gruffud maelaȣr yr haelaf oholl tywyſſogyon kymry Yulȣydyn honno hefyt y bu uarȣ gȣiaȣn eſcob bangor. gȣr maȣr y grefyd ae enryded ae deilygdaȣt. ac y bu diffyc ar yr heul. Yulȣydyn honno y bu uarȣ archeſcob keint. Ac yna yllas einaȣn or porth y gan y vraȣt. Ac y gorefgynnaȣd yrarglȣyd rys gaſtell ~~gaſtell~~ niuer. ac y bu uarȣ owein uab rys yn yſtrat flur. Yulȣydyn rac ȣyneb y diehẽgis madaȣc uab rys o garchar arglȣyd brecheinaȣc. Ac ygorefcynnaȣd yr arglȣyd[rys] gaſtell llan y hadein. Ac y bu uarȣ gruffud uab cadȣgaȣn. Yulȣydyn rac ȣyneb y delis neb un iarll rickert vrenhin lloegyr. ac ef yn dyuot o gaeruſſalem. ac y dodet ygkarchar yr amheraȣdyr. A thros y ellygdaȣt ef y bu diruaȣr dreth dros ȣyneb holl loegyr. Yngymeint ac nat oed ynhelȣ eglȣyſſwyr na chrefydwyr nac eur nac aryant hyt yn oet y carecleu adotrefyn yr eglȣyſſeu ar ny orffei y dodi oll ymedyant ſȣydogyon y brenhin ardeyrnas ȣrth y rodi drofta ȣ. Y ulȣydyn honno y dareſtygaȣd rodri uab owein ynys von drȣy nerth gȣrthrych urenhin manaȣ. A chyn pen y vlȣydyn y gȣrtladȣyt y gã ueibon kynan uab owein. Yulȣydyn honno nos nadolic y doeth teulu maelgȣn uab rys a bliuieu gantunt y dorri caſtell yſtrat meuruc. ac y denillaſſant y kaſtell Y ulȣydyn honno y kauaſ howel ſeiſ. ab * yr arglȣyd rys gaſtell gȣis dȣy urat. Ac y delis phylip uab gȣis keitȣat y caſtell ae wreic ae deu uab. A gȣedy gȣelet or dywededic howel na allei ef gadȣ y keſtyll oll heb vȣȣ rei yr llaȣr. ef aganhadaȣd y deulu ac y deulu y vraȣt torri kaſtell llan y hadein. ae diſtryȣ A phan gigleu y fflandraſſyeit hynny. kynullaȣ aȣnaethant yn dirybud yn erbyn y deu uroder. ae kyrchu. allad llawer oe gȣyr ae gyrru ar ffo. Ac yny lle gȣedy hynny ymchoelut awnaeth y kymry. ac ymgynullaȣ

ygkylch y castell. Ac 6rth y hewyllys y distrybyt hyt y llabr. Ynlbydyn honno y delis anarabt vadabc a howel y urodyr ac yd yspeilabd bynt oc eu llygeit. Ynlbydyn honno y rodes maelgbn uab rys gastell ystrat meuruc y vrabt. Ac ydadeilabd yr arglbyd rys yr eilweith gastell rayadyr gby. Ynlbydyn honno y delit yrarglbyd rys y gan yueibon ac y carcharbyt. ac yrydhaabd howel seis ydat gan dbyllab maelgbn uab rys. Ac yna ytorres meibon katballabn gastell rayadyr gby. Ac ydymchoelabd rickert urenhin o gaerusalem Ac yna kyfunabd llywelyn ab Jorboerth arodri uab owein. adeu uab kynan ab obein. ynerbyn davyd uab owein. Ac y gbrthladyssant by holl gyfoeth dauyd eithyr tri chastell. Ynlbydyn rac byneb ydeuth Rosser mortymer. allu gantab y uaelenyd A gbedy gbrthlad meibon katwallabn ydadeilabd gastell ygamaron. Ac yna y gorescynnabd Rys amaredud meibon yr arglbyd rys. drby dbyll gastell dinefbr. a chastell y kantref bychan. drby gytsynnedigaeth gbyr ykymhydeu. Arrei hyny yny vlbydyn honno adelit drby dbyll ygan y tat yn ystrat meuruc ac agarcharbyt. Ynlbydyn rac byneb ybu uarb escob bangor. Ac yna ykynnullabd yrarglbyd rys lu. ac y kyrchad kaer vyrdin. ac yllosges hyt y prid. eithyr y castell ehun Ac odyna ykychwynnabd adiruabr lu * gantab oe wyr ehun. Ac o wyr arglbydi ereill aodynt gyfun ac ef y ymlad achastell colbyn. ac e gymell y ymrodi. A gbedy y gael. ef aellosges. ac ynebrbyd odyno y kychbynnabd aelu hyt ymaes hyfeid aelosgi. A gbedy llosgi ydyd hbnnb ynydyffryn yngyuagos y kyweirabd Rosser mortymer a hu dysai yn vydinoed aruabc. oueirch allurugeu. a helmeu atharyaneu yn dirybud ynerbyn y kymry. A phanwelas y mabrurydus rys hynny. Ymwisgab abnaeth megys lleb dysal

1193–6.

o gallon allaȣ gadarn achyrchu y elynyon ynwraȣl ae hymchoelut arffo. ae hymlit ae traethu yndielȣ kyt bei gȣraȣl. yny gȣynaȣd y marſwyr yndiruaȣr yr ormod aerua or rei eidunt. Ac yny lle ydymladaȣd achaſtell paen yneluael ablifieu a magneleu. Ac y kymhellaȣd yymrodi. A gȣedy y gael y bu gyfundeb y rygtaȣ agȣilim brȣeȣys. Ac am hȳny yd edewis y caſtell hȣnnȣ ynhedȣch. Ȳny ulȣydyn honno yd ymladaȣd henri archeſcob keint Juſtus holl loegyr. a|hyt ac ef gynullеitua o Jeirll a Barȣneit lloegyr aholl tywyſſogyon gȣyned. ynerbyn caſtell gȣennȣynȣn yntrallȣg llywelyn. A gȣedy llauuryus ymlad ac ef ac amryuaelon peiranneu. adechymygyon ymladeu. yny diȣed oenryued geluydyt ȣynt aennillyſſant y caſtell drȣy anuon mȣynwyr y gladu y danaȣ. ac ywneuthur ffoſſyd dirgeledic y dan y dayar Ac uelly y kymhellȣyt ycaſtellwyr yymrodi. Ac eiſſoes ȣynt adiagyſſant oll ynryd aegȣiſgoed gantunt ae harueu eithyr vn allas. Ac odyna kyn diwed y ulȣydyn honno y kynullaȣd gȣennȣynȣyn y wyr ygyt ac yd ymladaȣd yn wraȣl ar dywededic gaſtell. ac ae kymhellaȣd y ymrodi idaȣ. drȣy amot hefyt rodi rydit yr caſtellȣyr y vynet yn iach ae dillat ae harueu gantunt. Ȳ ulȣydyn honno y bu uarȣ gruffud abat yſtrat Marchell. Ȳ ulȣydyn * rac ȣyneb y bu diruaȣr dymheſtyl ouarȣolyaeth ahyt ynys prydein oll a theruyneu ffreinc. yny vu varȣ anneiryf or bobyl gyffredin. A diueſſured or bonhedigyon artywyſſogyon. Ac yny ulȣydyn dymheſtlaȣl honno ydymdangoſſes antropos oe chȣioryd. yrei aelȣit gynt yn dȣyweſſeu ytyghetuennoed ykygorruynnus wenwynic nerthoed yn erbyn y veint arderchaȣc dywyſſaȣc hyt na allei yſtorryaeu yſtas yſtorryaȣr nachathleu fferyll uard. menegi y veint gȣynuan adolur athrueni adoeth y

holl genedyl y brytanyeit pan doares ageu ya emelldigedic ulóydyn honno o lóyn y teghetuenneu y gymryt ya arglóyd rys ab gruffud dan y hadaned dan darestygedic uedyant ageu ygóa aoed benn atharyan a chedernit ydeheu aholl gymry. a gobeith ac amdiffynn holl genedloed y brytanyeit. Y góa hónnó a hanoed o vonhedickaf lin brenhīed. Ef aoed eglur o amylder kenedyl. A grymuster y uedól a gyffelybaód góth ygenedyl. Kyghoaóa ydylyedogyon. Ymladgar ynerbyn kedyrn. Diogelóch y darestygedigyon. Ymladóa ar geyayd. Kyffroór yn ryfeloed. Kyweiróa yny bydinoed ae reolóa. Góympóa y toauoed. ac megys baed neu leó yn ruthraó uelly ydywalei y greulonder yny elynyon Och am ogonyant ya ymladeu. Taryan y marchogyon. Ymdiffynn y wlat. Tegóch arueu. Breich y kedernit. Llaó ya haelon Llygat y dosparth. Echtyóynnór ya aduóynder. Vchelder maóaurytróyd. Defnyd grymusder. Eil achelaróy onerth cledyr y dóyuron. Nestoa o hynaóster. Tideus o leóder. Samson o gedernit. Ectoa obrudder. Ercólf o wychter. Paris obryt. Vlixes o lauar. Selyf odoethineb. Aiax o uedól. A gróndóal ya holl gampeu.

Goedy maró ya arglóyd rys y dynessaaód gruffud y vab yny ol ynllywodraeth y kyuoeth ya hónn adelis maelgón y vraót. pandoeth ydywededic vaelgón wedy ryallttudaó kynno hynny oe gysoeth * ae wyr ygyt ac ef. A theulu góenóynóyn y gyt ac óynt hyt ynaber ystóyth. a goaeskyn ydaef ar castell. a llad llaóer oe bobyl. a dóyn ereill ygkeithiwet agoaeskyn holl geredigyaón ae chestyll A góedy dala gruffud yuraót ydanuones y garchar góenóynóyn. A hónnó heróyd y ewyllys aehanuones y garchar saeson Ac yna y goaesgynnaód góenóynóyn aróystli. Ac y delis

1197.

Llywelyn uab Iorwoerth |a| dauyd ab owein gŏyned. Y vlŏydyn honno y bu uarŏ owein kefeilaŏc ynystrat marchell. wedy kymryt abit y crefyd ymdanaŏ. Ac yna ybu uarŏ owein ab gruffudd maelaŏr. Ac owein or brithdir. A hoŏel uab Ieuaf. A Maelgŏn uab katwallaŏn o vaelenyd. Y ulŏydyn honno y delit trahayarn uychan o vrecheinaŏc. gŏr arderchaŏc bonhedic kadarn. Anith yr arglŏyd rys ynbriaŏt idaŏ. pan yttoed yndyuot drŏy lan gors y lys wilim breŏys y arglŏyd ac y gefynnŏyt yngreulaŏn. Ac ynaber hodni y llusgŏyt ŏrth raŏn meirch drŏy yr heolyd hyt y crocwyd. ac yno y llas y benn ac y croget herwyd ydraet. ac ar ycrocwyd ybu tri dieu. wedy dianc y wreic ae vab ae vraŏt ar ffo. Y vlŏydyn rac wyneb y gorefskynnaŏd Mael|gŏ|ab rys aber teiui. A chastell ystrat meuruc wedy mynet gruffud y uraŏt ygkarchar saesson. Ac yna ydaeth coueint y cŏm hir y bressŏylaŏ y gymer. Y ulŏydyn honno y gorefgynnaŏd ymeibon ieuaf yr arglŏyd rys gastell dinefŏr. Y ulŏydyn honno ydaruaethaŏd gŏennŏynŏyn geissaŏ talu y hen deilygda|ŏt| yr kymry. ae hen briodolder ae teruyneu. A gŏedy kytsynyaŏ ac ef ar hynny holl dywyssogyon kymry. kynullaŏ diruaŏr lu aorruc. A mynet y ymlad achastell paen. A gŏedy bot ynymlad ac ef deir ŏythnos hayach heb wybot y damwein rac llaŏ. A phan wybu y saesson hynny. gellŏg aŏnaethant rufud uab rys aoed ygkarchar y gantunt achynullaŏ kedernit lloegyr y gyt ac ef * ar vedyr hedychu arkymry. Ac yna ny mynnaŏd y kymry hedŏch y gan y saeson namyn gŏedy caffel y castell. bygythyaŏ awnaethant losgi y dinassoed adŏyn yhanreitheu. A heb diodef orsaeson hynny ŏynt aekyrchassant. ac yny vrŏydyr gyntaf ae kymellassant ar ffo drŏy wneuthur diruaŏr aerua onadunt. Ac yna y llas anaraŏt ab owein ab

1197–8.

kadoallaon. a ridit ab Jestyn. arodri uab howel. Ac ydelit maredud uab kynan ac y carcharoyt Ac uelly ydeuth y saesson driachefyn droy uudugolyaeth wedy y kyuoethogi o yspeil y kymry. Y vloydyn honno y goresskynnaod gruffud uab rys yn oraol yran oe gyuoeth y gan vaelgon y vraot eithyr deu gastell nyt amgen aber teifi ac ystrat Meuruc. Ar neill onadunt nyt amgen aber teivi a tygaod maelgon vch benn amryvaelon greireu yggoyd myneich oedy kymryt goystlon y gan rufud drosf hedoch y rodi y castell. ar goystlon y gyt yn oet dyd y ruffud. Arllo honno adremygaod ef heb rodi nar castell nar goystlon. Doywaol nerth eissoes arydhaaod ygoystlon o garchar goenoynoyn. Yuloydyn honno y bu uaro pyrs escob mynyo Y vloydyn rac oyneb y goresgynnaod Maelgon uab rys. gastell dineirth aadeilassei ruffud uab rys. Achymeint ac agauas yno o wyr. Ilad rei awnaeth acharcharu ereill. Ac yna ygoresgynnaod gruffud ab rys droy doyll gastell kil gerran. Y vloydyn honno ual yd oed Rickert urenhin Iloegyr yn ymlad achastell neb un uaron aoed orthoyneb idao ybrathoyt achoarel. ac orbrath honno ybu uaro. Ac yna y drychafoyt Jeuan y uraot ynvrenhin...

Deucant mlyned amil oed oet crist pan vu varo gruffud uab kynan ab ooein ynaber conoy. wedy kymryt abit y creuyd ymdanao. Yvloydyn honno y goerthaod maelgon uab rys aber teiui a llao|ed holl gymry yr ychydic werth y saeson rac ofyn ac ogas gruffud y uraot. Yuloydyn honno y grondwaloyt manachlaoc * lenegwestyl yn ial. Y uloydyn rac oyneb y goresgynnaod llywelyn uab Jorwoerth gantref llyyn wedy gorthlad maredud ab kynan o achaos ydoyll. Yuloydyn honno nos oyl sulgoyn ydaeth cofeint ystrat fflur yr eglys newyd

1198–1201.

aadeilyſſit o aduóynweith. Ychydic wedy hynny yg kylch góyl bedyr aphaól. y llas maredud uab rys góas Jeuanc aduóyn campus ygkarnywyllaón. ae gaſtell ynteu ynllan ymdyfri. Ar cantref ydoed ~~yd oed~~ yndaó a orefgynnaód gruffud y uraót. Ac yny lle wedy hynny wyl Jago eboſtol y bu uaró gruffud ab rys yn yſtrat fflur. wedy kymryt abit y crefyd ymdanaó. ac yno y cladóyt. Y vlóydyn honno y crynaód ydayar ygkaeruſſalem. Yulóydyn rac óyneb y górthladóyt Maredud ab kynan o veirōnyd. y gan howel ab gruffud y nei ab y uraót ac ydyſpeilóyt yn lóyr eithyr y varch. Y ulóydyn honno yr óythuet dyd góedy duó góyl bedyr aphaól ydymladaód y kymry achaſtell góerth rynyaón aoed eidaó roſſer mortymer. Ac y kymhellaſſant y caſtellwyr yrodi y caſtell kyn penn yr óythnos. Ac y llofgaſſant ef hyt yprid. Y vlóydyn honno amgylch góyl ueir gyntaf yny kynhayaf. y kyffroes llyóelyn uab Jorwoerth lu o powys. y dareſtóg góenóynóyn idaó. ac y oreſgynn yólat. Kanys kynn bei agos góenóynóyn idaó. o gerennyd. Gelyn oed idaó heróyd góeithretoed. Ac ar hynt y gelóis attaó y tyóyſſogyon ereill. aoedynt gereint idaó y ymaruoll ar ryfelu y gyt yn erbyn góen|nóynóyn. Agóedy góybot o eliſy ab Madaóc hynny ymórthot aónaeth arymaruoll yggóyd paób. Ac oe holl ynni aruaethu aónaeth wneuthur hedóch agóenóynóyn. Ac am hynny wedy hedychu oeglóyſſóyr achrefydwyr y róg góenóynóyn allyóelyn y digyfoethet eliſy. Ac ynydiwed y rodet idaó ygkardaót yymborth gaſtell aſeith tref bychein ygyt ac ef. ac uelly góedy gorefgyn caſtell y bala ydymchoelaód llywelyn drachefy * yn hyfryt. Yulóydyn honno amgylch góyl uihagel. y gorefgynnaód teulu rys Jeuanc ab gruffud ab yr arglóyd rys gaſtell llan

1201–2.

ymdyfri. Ẏ ulȣydyn rac ȣyneb y gorefgynnaȣd Rys ieuanc gafteſſ ſſan egȣat. Ac yna ybu uarȣ dauyd ab owein ynſſoegyr. wedy y dehol o lywelyn ab Jorwoerth ogymry. Ẏ ulȣydyn honno y gorefgynnaȣd gȣenȣynȣyn. a Maelgȣn ab rys drȣy dychymygyon gafteſſ ſſan ym dyfri. a chafteſſ ſſan gadaȣc. ac y cȣplaȣyt cafteſſ dineirth. Ẏ ulȣydyn rac ȣyneb y brathȣyt howel ſeiſ ab yrarglȣyd rȣs ygkemeis drȣy dȣyſſ y gan wyr maelgȣn y vraȣt. Ac or bath hȣnnȣ ybu uarȣ. Ac y cladȣyt yn yſtrat flur. ȳunwed agrufud y vraȣt. wedy kymryt abit ycrefyd ymdanaȣ. Ẏ vlȣydyn honno y coſſes maelgȣn ab rys aſſwedeu y hoſſ gyfoeth. Nyt amgen ſſan ymdyfri adinefȣr. Kanys meibon y vraȣt ae henniſſaȣd arnaȣ yn ȣraȣl. Ẏ ulȣydyn honno ydeuth gȣilim marfgal adiruaȣr lu gantaȣ y ymlad achil gerran. ac y gorefgynnaȣd. Ẏ ulȣydyn rac ȣyneb y bu uarȣ Hubert archeſcob keint. y gȣr aoed lygat yr pab aphenn prelat hoſſ loegyr. Ẏ ulȣydyn honno yperis maelgȣn uab rys ydyd kỳntaf or gȣedieu yr haf yneb un ȣydel abȣeſſ lad kediuor ab griffri. gȣr da aduȣyn. ae petwar arderchogyon veibon gyt ac ef. a hanhoedynt odylyedaȣc voned. Kanys y mam oed ſufanna verch howel. ouerch uadaȣc uab maredud. Ẏ ulȣydyn rac ȣyneb ydoeth Jeuan gardinal hyt ynſſoegyr. Ac y kynnuſſaȣd attaȣ hoſſ eſcyb ac abadeu ſſoegyr. ac aneiryf o eglȣyſȣyr achrefydwyr. ȣrth wneuthur ſened. Ac ynyſened honno y kadarnhaaȣd kyfreith yr eglȣys drȣy yr hoſſ deyrnaſ. Ẏ ulȣydyn honno y gȣnaeth Maelgȣn ab rys gafteſſ aber einaȣn. Ac yna yrodes duȣ amylder o bỳſgaȣt yn aber yſtȣyth yn gymeint ac nabu y kyfryȣ kynno hynny. Ẏ ulȣydyn rac ȣyneb y gȣahardȣyt y griſtonogaeth y gan y pab yn * hoſſ teyrnas loeger. o achaȣs gȣrthȣynebu o Jeuan vren-

1203–7.

hin etholedigaeth archefcob keint. Y ulóydyn honno ygórthladaód Jeuan vrenhin wilim bręóys agóilim ieuanc y vab ae górażed ae hóyżon. o gyghożuynt achas hyt yn Jwerdon dżóy amarch achollet ar yż eidunt. Y ulóydyn honno ydelis y bżenhin wenóynóyn yn amóythic Ac y gożefgynnaód Llywel^yn uab Jorwoerth y holl gyfoeth ae geftyll ae lyffoed Aphan wybu uaelgón ab rys hynny rac ofyn Llywelyn ab Jorwoerth y byżyaód gaftell yftrat meuruc yż Llaóż allofgi dineirth ac aber yftóyth Ac nyt edewis eiffoes lywelyn y aruaeth namyn dyfot aónaeth hyt yn aber yftóyth aehadeilat. achymryt cantref penwedic idaó ehun. A rodi dżyll arall o geredigyaón vch ayron y veibon gruffud abrys y nyeint. Y vlóydyn honno y gożefgynnaód rys vychan uab yż arglóyd rys gaftell Llangadaóc. heb goffau yżamot awnathoed ae nyeint pan rodyffynt idaó gaftell dinefóż. Y ulóydyn rac óyneb ydymladaód rys ac owein meibon gruffud a chaftell Llangadaóc ac yllofgaffant gan lad rei oż kaftellwyż acharcharu ereill. Y vlóydyn honno ydaeth iożóoerth urēhin a diruaóż lu gantaó hyt yn Jwerdon. ac yduc y ar ueibon hu dylafai y tir ae keftyll. Agóedy kymryt górogaeth ygan baób o iwerdon. A dala górеic wiliam bżewyf agóilim ieuanc yuab. ae wreic ae vab ae verch yd ymchoelaód y loegyż ynenrydedus. Ac yno ylladaód ef wilim ieuanc ae vam o anrugaraóc agheu ygkaftell windylfoż. Y ulóydyn honno ydadeilaód iarll kaer Lleon gaftell deganóy. yż hónn a dożryffei lywelȳ uab iorwoerth kynno hynny rac ofyn ybżenhin. Ac yna hefyt yd adeilaód yiarll hónnó gaftell terfynnaón. Ac* y diffeithaód llywelyn ab iożwoerth gyfoeth y iarll hónnó. Ac yna góedy hedychu o rys gryc arbżenhin. dżóy nerth y bżenhin y gożefgynnaód gaftell llanymdyfri. kanys

1207–9.

y castellwyr wedy annobeithaw o bop fordd arodassant y castell. ac un amos ar bymthec yndaw duw gwyl ueir ymedi Drwy amot kael or castellwyr y kyrff a phop peth oreidunt yn iach. Y ulwydyn honno amgylch gwyl andras y gorefgynnawd gwenwynwyn y gyfoeth drachefyn drwy nerth Jeuan urenhin. o lewenyd hynny ydhedychawd Maelgwn ab rys ar brenhin heb goffav y llw ar aruoll a vuassei y rygtaw arys ac owein meibon gruffud ab rys ynyeint. kynnullaw diruawr lu o ffreinc a chymry y rygtaw aphenwedic ac y doeth hyt ygkil kennin. ac yno pebyllyaw aoruc Ac yna y kynullawd rys ac owein meibō gruffud trychanwr o etholedigyon deuluoed a hyt nos kyrchu llu maelgwn aorugant a llad llawer adala ereill agyrru y dryll arall ar ffo. Ac yny urwydyr honno ydelit kynan ab howel nei maelgwn. A gruffud ab kynan penn kyghorwr maelgwn. Acyllas einawn ab cradawc. ac aneiryf o rei ereill. Ac yna y diegis maelgwn ar ydraet ynffo yn waratwydus. Y ulwydyn honno y cadarnhaawd fynyfcal kaer loyw gafteil Buellt wedy llad or kymry. lawer oewyr kyn no hynny. Y vlwydyn honno y bu uarw mahallt y brewys Mam meibō gruffud uab rys ynllan badarnn vawr. wedy kymryt kymun achyffef aphenyt ac abit ycrefyd ac ycladwyt y gyt ae gwr priawt yn yftrat fflur.

Dec mlyned adeucant amil oed oet crift panduc llywelyn ab Jorwoerth greulonyon gyrcheu ambenn y faefon. ac am hynny yllidyawd Jeuan urenhin. Ac aruaethu awnaeth digyfoethi llywelyn o gwbwl. a chynullaw diruawr lu aoruc tu agwyned ar uedyr * y diftryw oll. A chyt ae lu ef y dyfynnawd attaw hyt ygkaer Ileon hynn o dywyffogyon kymry. Gwenwynwyn o powyf. A howel ab gruff"d ab kynan. A madawc ab gruff"d. Maelawr. A Maredud ab rotbert

1209–10.

o gedewein. a maelgón. a Rys gryc meibon yr arglóyd rys. Ac yna y mudaód llywelyn ae giwtaót y perued y ólat ae da hyt ymmynyd eryri achiótaót vn ae da yn vnffunýt Ac yna ydaeth y brenhin ae lu hyt yg kaſtell deganóy. Ac yno y bu kymeint eiſſeu bóyt ar y llu. ac y góerthit yr óy yr keinaóc a dimei. A góled uoethus oed gantunt gael kic ymeirch. Ac am hynny ydymchoelaód y brenhin y loegyr amgylch y ſulgóyn ae neges yn amherffeith. wedy colli yn waradwydus laóer oe wyr ac oe da. A góedy hynny amgylch calan aóſt ydymchoelaód y brenhin y gymry yn greulonach y vedól ac yn vóy y lu. Ac adeilat llawer o geſtyll yggóyned awnaeth. A thróy auon gonóy ydaeth tu a mynyd eryri. Ac annoc̄ rei oe lu awnaeth y loſgi bangor. Ac yno y delit rotbert eſcob bangor yny eglóys Ac y góerthóyt wedy hynny yr deu cant hebaóc. Ac yna heb allel o lywelyn diodef creulonder y brenhin dróy gyghor y wyr̄da ydanuones y wreic att y brenhin yr hoñ oed verch yr brenhin ywneuthur hedóch y rygtaó ar brenhin paffuryf bynhac y gallei. A góedy caffel o lywelyn diogelróyd y uynet att y brenhin ac ydyuot ef aaeth attaó ac ahedychaód ac ef. dróy rodi góyſtlon yr brenhin o vonhedigyon y wlat. Ac vgein mil o warthec a deugein emys. A chanhattau hefyt yr brenhin y berued wlat yn dragywydaól. Ac yna yd hedychaód ar brenhin holl dywyſſogyon kymry. eithyr Rys ac owein meibon gruffud ab rys ac ydymhoelaód y brenhin y loegyr dróy diruaór lewenyd yn uudugaól. Ac yna y gorchymynnaód ef yr tywyſſogyon hynny gymryt ygyt ac óynt holl lu * morgannóc A dyuet. A rys gryc. A maelgón ab rys aelluoed. amynet am benn *meibon rys ab* gruffud ab rys. y. y gymell arnunt dyuot y laó. neu gilyaó ardehol or holl deyrnas.

1210.

Ac yna y kymhellaȣ^d ſynyſcal kaer dyf. gȣr aoed dywyſſaȣc ar yllu. a Rys. a maelgȣn meibon yr arglȣyd rys y lluoed aekedernit. achyrchu pennwedic awnaethant. Agȣedy naallei rys ac owein meibon gruffud. ymerbynyeit ar ueint allu hȣnnȣ. ac nat oed le ryd udunt ygkymry y gyrchu idaȣ. anuon kenadeu aorugant. at ffaȣcȣn ywneuthur y hedȣch. A hedychu ac ef awnaethant Achanattau awnaethant yr brenhin y kyfoeth rȣg dyfi ac aeron. Ac adeilat aoruc ffaȣcȣn gaſtell yr brenhin ynaber yſtȣyth. Ac yna yd aeth rys ac owein veibon gruffud ar gȣndit ffaȣcȣnn y lys y brenhin. aekymryt aoruc y brenhin yngyfeillon idaȣ. Athra yttoedynt hȣy ynmynet y lys y brēhin. ediuarhau aoruc maelgȣn uab rys arys gryc y uraȣt y hamodeu arbrenhin. A chyrchu aȣnaethant am benn y caſtell newyd yn aber yſtȣyth ae dorri. A phan doeth rys ac owein veibon gruffud ab rys olys y brenhin wedy hedychu ac ef. Kyrchu awnaethant is aeron kyuoeth maelgȣn uab rys allad allofgi ac anreithaȣ y kyuoeth aȣnaethant. Ac yno yllas gȣaſ ieuanc da derr oed hȣnnȣ. Yulȣydyn rac ȣyneb wedy na allei lywelyn ab iorwoerth dywyſſaȣc gȣyned diodef y genifer ſarhaet awnaei wyr y brenhin idaȣ. aedewyſſit yny caſtell newyd. ymaruoll aoruc athywyſſogyon kymry. Nyt amgen gȣenȣynȣyn. A maelgȣn ab rys. a Madaȣc ab gruff^n^d maelaȣr. amaredud ab rotbert. Achyfodi aoruc yn erbyn y brenhin. agorefgyn yr holl geſtyll aȣnathoed yggȣyned eithyr deganȣy a rudlan Marthaual ympowys aw*nathoed Robert vepȣnt. Hȣnnȣ aoreſkynnaſſant. A phan oedynt yn gorefgyn hȣnnȣ y doeth y brenhin adiruaȣr lu y gyt ~~ac~~ ac ef y gȣrthlad ac ef ehun athan ae llofges. Yulȣydyn honno y croges Robert vepȣnt ynamȣythic rys ab maelgȣn aoed yg|gȣyſtyl ygan ybrenhin. heb y

1210—1.

uot ynſeith mlȣyd etto. Ac yny ulȣydyn honno y bu uarȣ robert eſcob Bangor Ỏ vlȣydyn rac ȣyneb y bu urȣydyr ynyr yſpaen yrȣg y criſtonogyon ar ſaraſſinyeit yny vrȣydyr honno y dyȣedir dygȣydaȣ deg mil o wyr atheir mil owraged. Ỏulȣydyn honno y croget ynlloeger trywyr arderchaȣc ogenedyl aphrif tywyſſogyon kymry Nyt amgen howel ab katwallaȣn. A Madaȣc uab maelgȣn. A meuruc barach. Ỏulȣydyn honno y rydhaaȣd. Innoſſens bap y tri thywyſſaȣc. Nyt amgen llywelyn ab Jorwerth. A gȣenȣynȣyn. a maelgȣn ab rȳs or llȣ arffydlonder arodaſſynt y urenhin lloegyr. A gorchymyn udunt aȣnaeth yn uadeueint oe pechodeu dodi gofalus garedicrȣyd y ryuelu yn erbyn enwired y brenhin. A gȣahard y griſtonogaeth abaryſſei yr yſpump mlyned kynno hynny yn lloegyr achymry. yrydhaaȣd ypab ytri thywyſſaȣc gynneu oe kyuoetheu A phaȣb or auei vn ac ȣynt. Ac ȣynteu yn gyfun agyuodaſſant ynerbyn ybrenhin. Ac aorefkynnaſſant ynȣraȣl y arnaȣ y berueduedwlat. adugaſſei ynteu kynno hynny y ar lywelyn ab Jorwoerth. Ỏulȣydyn rac ȣyneb wedy gȣelet o rys Jeuanc y uot yn dirrann o gyfoeth. Anuon kenadeu aorruc att y brenhī yeruynneit idaȣ drȣy ynerth ef peri idaȣ rann o dref ydat. Ac yna ydanuones y brenhin att ſynyſgal henford. Ac at ffaȣcȣn ſynyſgal kaerdyf. A gorchymmyn beri y rys gryc rodi caſtell llan ymdyfri ar wlat. neu ynteu a gilyei o deruyneu y wlat ardehol. A gȣedy dyfȳnu * rys gryc y atteb ȣrth orchymynneu y brenhin. A dywedut aorruc yn atteb na rannei ef un erȣ a rys ieuanc. Ac yna llidiaȣ aorruc Rys ieuanc. Achynnullaȣ diruaȣr lu ovrecheinaȣc. A dyfot y dreis aorruc y yſtrat tywi. A phebyllyaȣ yny lle aelȣir trallȣc elgan. wedy yr ȣythuet dyd owyl ſeint ilar. Athran-

1212—3.

noeth duo goener y doeth attao owein y vrao̊t. a phaocon synysgal kaer dyf. ae llwoed. a thrannoeth kyrchu aorugant gyuoeth rys gryc a chyweiryao̊ y bydinoed. A dodi rys ieuanc aevydin yny blaen. A ffao̊con ae vydin yny canao̊l. Ac owein ab gruff"d ae vydin ynol. Ac ny bu bell yny gyuarvu rys gryc ac o̊ynt. Ac yny vro̊ydyr ar vydin gyntaf y gorwuo̊yt ar rys gryc ae wyr. Ac y kilyao̊d arffo wedy llad llao̊er oewyr adala ereill. Ac yna ydaeth rys ieuanc aruedyr ymlad a chastell dinefo̊r Ac eissoes rys gryc aerac ulaenao̊d ac agadarnhaao̊d y gastell owyr ac arfeu Ag o̊edy llosgi llan deilao̊ kilyao̊ ymeith aorwc rys gryc. Ac eissoes rys Jeuanc agyrchao̊d y castell. A thrannoeth dodi peiranneu adechymygyon yymlad ar castell. Ag o̊neuthur yscolyon o̊rth y muroed ywyr y drigao̊ dros y muroed. Ac uelly y gorefgynnao̊d ef y castell oll eithyr vn to̊r Ac yn honno̊ ydymgymerth y castellwyr o̊rth ymlad ac amdiffyn ac ergydyeu ac apheiryanneu ereill. Ac odyallan ydoed saethydyon. ac arblastwyr. a mo̊ynwyr a marchogyon. yn ymlad ac o̊ynt. Ac uelly y kymhello̊yt arnunt kynn yprynhao̊n talu y castell a rodi tri go̊ystyl ao̊naethant dro̊y amot kael ydillat ae harueu ae haelodeu yn iach. Ac uelly y gonaethpo̊yt. A go̊edy cael y castell y kilyao̊d rys gryc. ae wreic. ae veibon. ae deulu att vaelgon y vrao̊t. wedy cadarnhau castell llan ymdyfri o wyr ac arueu ac aghenreiteu ereill. Ac eilweith ydaeth rys ieuanc y vrecheinao̊c. Ac yna kynnullao̊ dirua o̊r lu aorwc o gymry affreinc achyrchu llan ymdyfri. A chynn pebyllu * onadunt ef arodes y castellwyr y castell idao̊. dro̊y amot kael yheneideu ae haelodeu yn iach. Ȳ ulo̊ydyn honno y kymerth Jeuan urenhin benyt am y cameu ao̊nathoed ynerbyn yr eglo̊ys. A galo̊ drachefyn archefcob keint. ar efgyb

1213.

ar yſcolheigon aymrodaſſynt y alltuded oachaȣs gȣahard yr eglȣyſſeu. Ac o achaȣs y gȣrthrȣm godyant aȣnathoed yr eglȣys ydymrȣymaȣd ef ae etiuedyon ae holl urenhinyaeth Lloegyr ac Iwerdon y duȣ a phedyr aphaȣl. ar pab arpabeu ereill ynyol yndragywydaȣl. Ac ar hynny gȣneuthur gȣrogaeth gan tyghu talu y baȣp or eglȣyſſwyr y collet. A thalu mil o vorckeu pob blȣydyn y eglȣys rufein. Yulȣydyn honno gwedy ymadaȣ orys gryc arkymry. a mynnu hedychu ac ȣynt eilweith herȣyd ydyweit. Yna y delit ef ygkaer vyrdin ac ydodet ygarchar ybrenhin. Y ulȣydyn honno y dareſtygaȣd Llywelyn uab Jorwoerth gaſtell deganȣy. achaſtell rudlan. Y vlȣydyn rac ȣyneb ymordȣyaȣd Jeuan urenhin ac amylder oryfelwyr aruaȣc ygyt ac ef hyt ympheitaȣ. ac ymaruoll ac ef aorruc Jarll fflandrys a bar a henaȣnt. Ac anuon attunt awnaeth ieirll ſarur ygyt aevraȣt ac anneiryf o uarchogyon. a gȣahaȣd attaȣ otho amheraȣdyr rufein y nei. A chyfodi aorruc yryfelu ynerbyn phylip vrenhin freinc. Ac yna y magȣyt dirua ȣr ryfel y rygtunt. Otho amheraȣdyr rufein ar iarll o parthret flandrys ynryfelu. ar ffreinc aieuan urenhin oparthret peitaȣ yn aflonydu. Ac uelly o bop tu ydoedynt yn kymhurthaȣ y ffreinc. Ac yna ydanuones phylip arderchaȣc urenhin ffreinc lowys y uab y peitaȣ a llu ygyt ac ef y ymerbynyeit abrenhin Lloegyr. Ac ynteu ehun ar ffreinc ygyt ac ef adynaȣd tu aflandrys ynerbyn yr amheraȣdyr Aphan welaſ yr amheraȣdyr ar iarll hynny blȣg uu gantunt llauaſſu o vrenhin freinc dyneſſau attunt. aegyrchu * yndic aorugant. A gȣedy yr ymlad ef aſyrthyaȣd yuudugolyaeth y urenhin freinc. Ac ayrȣyt yr amheraȣdyr ar ieirll ar ffo offlandrys abar ahenaȣnt. Aphan gigleu brenhin Lloegyr y damȣein hȣnnȣ ofyn-

1213–4.

hau awnaeth gynhal ryſel avei vóy Agóneuthur kygreir ſeith mlyned aoȷuc abȷenhin ffreinc. ac ymchoelut y loegyȷ athalu Nawer oecoNedeu yȷeglóyſſwyȷ Ac yna y bu gyffredin eNygdaót yȷ eglóyſſeu ar hyt Noegyȷ achymry. Ȳ ulóydyn honno ybu uaró geffrei eſcob mynó. Ȳ ulóydyn rac óyneb ybu teruyſc yróg ieuan urenhin aſaeſſon y gogled. aNaóer o ieirN ereiN abaróneit Noeger. oachaós nachatwei ieuan urenhin ac óynt yȷ henn gyffreith. adeuodeu da a gaóſſynt gan etwart ahenri ybȷenhined kyntaf. A atygaſſei ynteu yȷ teyȷnas pan rydhaaód rodi udunt y kyfreitheu hynny. Ar teruyſc hónnó a gerdaód yngymeint. ac ydymaruoNes hoN wyȷda Noegyȷ a hoN dywyſſogyon kymry yn erbyn y bȷenhin. hyt na mynnei neb onadunt heb ygilyd y gan y bȷenhin. na hedóch nachyfundeb na chygreir yny dalei ef yȷ eglóyſſeu y kyfreitheu ae teilygdodeu. adugaſſei ef aerieni kynno hynny y gantunt ac yny dalei hefyt y wyȷda Noeger achymry ytired ar keſtyN agymeraſſei óȷth y ewyNys ygantunt heb na góir na chyfreith. Agóedy eu dyſgu oarcheſcob keint. ac eſgyb Noegyȷ a JeirN aebaróneit agofyn idaó arodei yȷ hen gyfreitheu da yȷ teyȷnas. y gomed aoȷuc. A heróyd rydyweſpóyt rac y hofyn óynt. kymryt croes aoȷuc Ac ualkynt y kyfodes y gogledwyȷ yn y erbynn oȷ neiN tu. ar kymry oȷ tu araN. Ac yny uróydyȷ gyntaf y duc y gogledwyȷ yarnaó dinas Nundein. Ac yna y cyȷchaód Nywelyn ab Joȷwoerth ar kymry y amóythic. Aheb óȷthóynebed y rodet idaó y dȷef ar caſteN. Ac yna ydanuones gilis o bȷeóys mab góilim o bȷewys robert y uraót yvȷe*cheinaóc. Aegymryt ynenrydedus awnaeth góyȷda bȷecheinaóc idaó. A chyn penn ytri dieu y goȷeſkynnaód caſteN penn keNi. ac aber gevenhi ar caſteN góynn ac ynys

1214–5.

